# Forty Voices Forty Years

# Deugain llais Deugain mlynedd

Cymorth i Ferched Cymru

Welsh Women's Aid






# Cynnwys


## Cyflwyniad

Deugain Llais, Deugain Mlynedd 03

Crynodeb Gweithredol 04

Ynghylch Cymorth i Ferched Cymru 05

Ynghylch Canolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans 06

Pam Adrodd Storïau a Hanes Llafar 06

## Dulliau

Cyfweliadau Hanes Llafar 07

Gweithdai Goroeswyr 08

Arddangosfa Deithiol 09

## Cynnyrch a Pherfformiad Allweddol o'u Cymharu â Thargedau

Amcanion 10

Canlyniadau 12

## Effaith, Llwyddiannau a'r Gwersi a Ddysgwyd

Effaith 17

Llwyddiannau 19

Y Gwersi a Ddysgwyd 20

## Cyfleoedd ar gyfer Cadwraeth Treftadaeth yn y Dyfodol

Storïau ysbrydoledig am Cymorth i Ferched Cymru a'r mudiad yng Nghymru 21

## Appendices

Atodiad 1: *Llinell Amser* 22

Atodiad 2: *Catalog Storïau* 30

Atodiad 3: *Amserlen Taith yr Arddangosfa* 37

Atodiad 4: *Adroddiad 40 Ymlaen* 38

# Cyflwyniad

## Deugain Llais, Deugain Mlynedd a 40 Ymlaen

**Yn ystod 2018-19 gweithiodd Cymorth i Ferched Cymru mewn cydweithrediad â Chanolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans ym Mhrifysgol De Cymru i nodi 40 mlynedd ers sefydlu'r mudiad.**

Cyllidwyd y prosiect – 'Deugain Llais, Deugain Mlynedd' – gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, Arian i Bawb a Hanford Cymru ac fe ddeilliodd o gydnabyddiaeth bod atgofion, lleisiau a bywydau menywod yn aml yn cael eu hepgor o dreftadaeth genedlaethol. Nod y prosiect oedd coffáu gwaith y menywod hyn dros y deugain mlynedd diwethaf, ond hefyd wella dealltwriaeth o'r mudiad i ddileu trais yn erbyn menywod yng Nghymru, gan wella gwybodaeth gymunedol am y mathau hyn o gam-drin a'n gwaith i'w atal. Bu'r prosiect yn ymweld â menywod ledled Cymru a fu'n ymwneud â mudiad Cymorth i Ferched Cymru ac yn cynnal gweithdai gyda nhw, gan gofnodi eu storïau diddorol. Roedd y menywod hyn yn cynnwys ymgyrchwyr, cyn-staff, aelodau sefydliadol, goroeswyr, cefnogwyr a gwleidyddion.

Ynghyd â chadw'r storïau hyn, rydym hefyd wedi bod yn casglu hanes y mudiad drwy lythyrau, lluniau a gwrthrychau gan bobl a sefydliadau a fu'n ymwneud â'r mudiad.

Cafodd y storïau a'r deunyddiau hyn a gasglwyd eu harddangos wedyn yn arddangosfa deithiol Deugain Llais, Deugain Mlynedd a fu'n ymweld â lleoliadau ledled Cymru ar ddiwedd 2018, gan arwain at arddangosfa fawr fis o hyd yn Sain Ffagan ym mis Ionawr a Chwefror 2019.

Yn olaf, cawson ein gwahodd gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip (a Chydlynydd cyntaf Cymorth i Ferched Cymru ym 1978) Jane Hutt AC, i gynnal yr arddangosfa Yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn y Senedd ar gyfer wythnos Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, ac i ddefnyddio'r orielau yn adeilad y Pierhead Cynulliad Cenedlathol Cymru ym Mae Caerdydd yn ystod mis Ebrill.

Cafodd storïau, gwrthrychau a gwybodaeth arall y prosiect eu cadw drwy oriel ar-lein o dan ofal Casgliad Y Werin Cymru, sydd ar gael i bawb. Mae papurau a lluniau a gasglwyd hefyd yn cael eu cynnwys yn archif Cymorth i Ferched Cymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae'r prosiect hwn yn coffáu gwaith y sefydliad dros y deugain mlynedd diwethaf, ond mae hefyd yn gwella dealltwriaeth am y mudiad i ddileu trais yn erbyn menywod yng Nghymru, gan wella gwybodaeth gymunedol am y mathau hyn o gam-drn a'n gwaith i'w atal. Roeddem hefyd am annog pobl i ystyried ein blaenoriaethau yn y dyfodol fel mudiad, wrth i ni weithio tuag at ein nod cyffredin o ddileu trais yn erbyn menywod unwaith ac am byth. Cafwyd cipolwg o hyn drwy gyfrwng ein hymgyrch #40Ymlaen a oedd yn cydredeg ochr yn ochr â'r prosiect, gan gasglu syniadau a dyheadau'r cyhoedd o safbwynt rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched yn ystod y deugain mlynedd nesaf.

Ers cwblhau'r prosiect yn swyddogol mae storïau wedi parhau i fod o werth ac wedi ffurfio rhan ganolog o ddigwyddiadau gyda mudiadau rhanddeiliaid gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad a Gweinidogion. Rydym hefyd wedi llwyddo i sicrhau cyllid gan Brifysgol De Cymru i ymestyn effaith ac ystod Deugain Llais, Deugain Mlynedd drwy greu adnodd digidol sy'n tynnu sylw at beth o'r dreftadaeth a gasglwyd ac sy'n cyfeirio pobl tuag at y storïau llawn a archifwyd yn Casgliad y Werin Cymru.

> "Women's Aid is one of the greatest legacies of the Welsh women's movement.[2]"
>
> **- Deirdre Beddoe**

**NODIADAU**

[1] Gweler Atodiad 4.

[2] Beddoe, D., Out of the Shadows: A history of women in twentieth century Wales, (Aberystwyth, 2000), t.162.

# Crynodeb Gweithredol

**26** Cofnodwyd storïau 26 o fenywod a oedd yn allweddol yn rhyddid menywod a'r mudiad Cymorth i Ferched yng Nghymru.

**46** Cofnodwyd 46 o hanesion llafar a storïau digidol gan ymgyrchwyr, goroeswyr a staff a fu'n rhan o'r mudiad yng Nghymru yn ystod y deugain mlynedd diwethaf.

**18** Cyfrannodd 18 o oroeswyr a chrëwyd 22 stori o weithdai adrodd storïau digidol.

**46** Rhannwyd 46 o storïau digidol hygyrch ledled Cymru ac ar-lein drwy Casgliad y Werin Cymru, YouTube a Facebook.


**68** Cefnogwyd 68 o wirfoddolwyr gan y prosiect, a darparwyd dros 100 niwrnod o wirfoddoli.

**5,648** Ymwelodd 5,648 o bobl yng Nghymru â'r arddangosfa deithiol a gwelodd dros 14,500 o ymwelwyr yr amgueddfa yr arddangosfa derfynol.

Crëwyd archif gynhwysfawr yn Casgliad y Werin Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a pharheir i ychwanegu ati yn y dyfodol er mwyn ehangu'r casgliad, a chrëwyd llinell amser o adegau hanesyddol allweddol yn ymwneud â mudiad Cymorth i Ferched.



Cafodd tua 10,000 o unigolion wybodaeth am y prosiect drwy adnoddau ar-lein a'r cyfryngau cymdeithsol.



Mynychodd mwy na 20,000 o unigolion, disgyblion a myfyrwyr, grwpiau cymunedol ac eraill arddangosfeydd a darlithoedd yn eu cymunedau lleol ac mewn lleoliadau addysgol gan glywed storïau pwerus am oroeswyr, dysgu am y rhesymau dros y mudiad, yr heriau a'r llwyddiannau a gafwyd ar wahanol adegau yn ystod y deugain mlynedd diwethaf, a dod i ddeall yn well pam mae angen y sector o hyd.

**mwy na**
**20,000**



# Ynghylch Cymorth i Ferched Cymru

**Roedd 2018 yn nodi deugain mlynedd o fodolaeth Cymorth i Ferched Cymru, y corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau annibynnol arbenigol yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV).[3]**

Mae'r gwasanaethau hyn, y mae llawer ohonynt hefyd wedi dathlu eu pen-blwydd yn ddeugain oed yn ddiweddar, yn darparu cymorth sy'n achub bywyd ac yn newid bywydau yn ogystal â gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y Deyrnas Unedig.

Fel corff ymbarél, ein prif bwrpas yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais arall yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroeswyr, a'r rheini'n wasanaethau sy'n ymateb i anghenion ac i rywedd ac sy'n holistig. Cydweithiwn yn genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru; darparwn gyngor, gwasanaethau ymgynghori, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac o fewn cymunedau, a hynny er budd goroeswyr.

Rydym ni hefyd yn darparu gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys, er enghraifft, Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a phartneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol. Rydym yn treialu prosiect Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr (SEEdS), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddod at ei gilydd i ysbrydoli ac i ddylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus a fframweithiau comisiynu, ac i fod o gymorth i newid agweddau. Rydym hefyd yn treialu dulliau arloesol o ddileu trais yn erbyn menywod a merched am byth, gan gynnwys drwy gyfrwng y prosiect Newid sy'n Para sy'n gweithio gyda goroeswyr, gwasanaethau arbenigol, gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau a llunwyr polisi i ymyrryd yn gynt a gweithio'n fwy cydweithredol.[4]

Rydym ni hefyd yn cyflenwi Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymru (NQSS), fframwaith achredu cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU.[5]




*Uwchlaw: Ymgyrchu dros wasanaethau arbenigol Cymorth i Ferched yn yr 1980au.*

## NODIADAU

[3] Mae ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol trydydd sector yng Nghymru sy''n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y mae gennym gytundebau cenedlaethol â nhw er mwyn sicrhau y caiff ein gwaith ei gydlynu a'i integreiddio, yn cynnwys: Gwasanaeth Cam-drin Domestig, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Cymdeithasau Tai Clwyd Alyn (CAHA), Stepping Stones Gogledd Cymru, Safer Merthyr Tydfil, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, Calan DVS, Cymorth i Fenywod Caerdydd, Cymorth i Fenywod Cyfannol, Uned Diogelwch Trais Teuluol (DASU), Gorwel (Grwp Cynefin), Montgomeryshire Family Crisis Centre, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Fenywod Rhondda Cynon Taf, Cymru Ddiogelach (gan gynnwys Prosiect Dyn), Cymorth i Fenywod Abertawe, Threshold, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru a Chanolfan Trais a cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru.

[4] Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y dull Newid sy'n Para yma: http://www.welshwomensaid.org.uk/what we-do/our-approach-change-that-lasts/

[5] Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am NQSS yma: http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/

# Ynghylch Canolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans

**Mae Canolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans yn ganolfan ymchwil ym Mhrifysgol De Cymru. Dyma'r unig ganolfan ymchwil academaidd sydd wedi'i neilltuo ar gyfer astudio adrodd storïau a'r defnydd ohono. Caiff yr holl waith a wneir yn y Ganolfan ei arwain gan yr ethos bod adrodd storïau yn creu gwell dealltwriaeth rhwng unigolion a chymunedau ar draws y gymdeithas; drwy rannu storïau a chael eu clywed, eu cydnabod a'u parchu, gallwn greu gwell ymwybyddiaeth o'n gorffennol a'n sefyllfa bresennol a dychmygu'r math o fyd yr hoffem greu.**

# Pam Adrodd Storïau a Hanes Llafar

**Mae storïau yn allweddol i ddeall ein treftadaeth, maen nhw'n gymorth i ni weld sut yr ydym wedi cyrraedd y lle yr ydym yn awr a pham mae hynny'n bwysig ar lefel ddynol. Mae'r storïau rydym ni wedi'u casglu fel rhan o brosiect Deugain Llais, Deugain Mlynedd wedi'n galluogi i ddeall gweithredoedd menywod unigol, gweithredoedd sy'n aml yn gudd ond sy'n arwyddocaol tu hwnt, a sut y mae'r gweithredoedd hyn yn cyfuno i greu mudiad sydd wedi wedi llunio ein bywydau ni i gyd yng Nghymru a thu hwnt.**

Drwy rannu'r storïau hyn a sicrhau y cânt eu clywed gan amrywiaeth o randdeiliaid a chynulleidfaoedd, gallwn helaethu lleisiau cymunedau o fenywod sy'n aml wedi'u hymyleiddio a sicrhau eu bod yn cael eu cydnabod fel rhai sy'n ganolog i'n treftadaeth gyfunol fel cenedl.

Mae Adrodd Storïau yn Ddigidol a Hanes Llafar yn galluogi'r adroddwr i reoli eu dehongliad eu hunain ac i dreftadaeth gael ei chydgynhyrchu go iawn. O fewn y prosiect hwn rydym wedi casglu storïau sydd wedi'u hadrodd, eu llunio a'u darlunio gan y prif gymeriadau allweddol. Mae'r dull hwn yn cydnabod bod hanes yn oddrychol a bod angen i ni weld digwyddiadau o amrywiaeth o safbwyntiau er mwyn cael dealltwriaeth lawnach a mwy cymhleth. Un o gredoau allweddol adrodd storïau a hanes llafar yw bod llais dilys yr adroddwr yn cael ei barchu. Gwnaethom y penderfyniad i hwyluso'r broses i gyfranwyr fedru rhannu eu storïau yn eu geiriau nhw eu hunain a chan ddefnyddio'r iaith o'u dewis. Nid ydym yn anelu at gywirdeb ffeithiol na gwrthrychedd ond at wirionedd a dealltwriaeth hanesyddol sy'n anos dod o hyd iddynt ac y gellir eu cael o wrando ar sut deimlad oedd bod yna ar adegau allweddol a luniodd ein stori genedlaethol.

Mae pwysigrwydd ystod o safbwyntiau yn ganolog i'n cysyniad o dreftadaeth gyfunol wedi'i ffurfio gan nifer o leisiau a storïau unigol; yn y prosiect hwn nid ydym yn honni bod un dreftadaeth ddiffiniol i'r mudiad i ddileu trais yn seiliedig ar rywedd yng Nghymru, yn hytrach rydym wedi chwilio am nifer fawr o leisiau fel y gellir deall y mudiad fel gofod sy'n newid ac sy'n cynnwys gwahanol storïau ac sy'n golygu gwahanol bethau i'r amrywiol bobl a allai hawlio rhan ynddo. Mae storïau, a hanesion llafar, yn ddemocrataidd o ran natur – gall pawb adrodd stori a phan glywn stori rydym yn agor hanes fel ei fod yn cael ei ysgrifennu a'i wneud yn werthfawr gan ac ar gyfer yr holl bobl sy'n byw ac yn ei greu, yn hytrach na'i fod ynghlwm wrth adeiladau, lleoliadau, syniadau neu strwythurau pŵer penodol. Yn fwy na dim, mae dull Hanes Llafar ac Adrodd Storïau Digidol yn sicrhau y caiff uniongredoau eu herio ac na chollir lleisiau dilys.

# Dulliau

## Cyfweliadau Hanes Llafar

**Rhoddwyd cyfweliad i gyfanswm o 28 o fenywod gan ddilyn trefn hanes llafar traddodiadol. Oherwydd natur sensitif llawer o'r storïau a gasglwyd, roedd ystyriaethau moesegol yn hollbwysig. Nodwyd cyfranwyr drwy gyfuniad o:**

**Ymgyrchoedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol**

**Argymhellion ar lafar gan gyfranwyr eraill**

**Argymhellion gan ein grŵp llywio** *(a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o grwpiau goroeswyr, sefydliadau sy'n gweithio o fewn y sector, academyddion a Llyfrgell Genedlaethol Cymru).*

Unwaith y byddai cyfrannwr posibl wedi cysylltu neu wedi cael cyswllt gan aelod o'n tîm, cynhaliwyd cyfres o sgyrsiau yn amlinellu natur y prosiect a'r manylion am yr hyn y gallai menyw fod eisiau ei gyfrannu. Byddai'r rhain yn sicrhau bod pobl yn gwbl ymwybodol o'r hyn y byddem yn ei recordio ganddynt a sut y byddai'n cael ei ddefnyddio yn ogystal â'n galluogi i lunio ar y cyd y ffordd y byddai stori pob menyw yn cael ei ffurfio fel bod cyfranwyr yn rheoli sut y byddent yn cael eu cynrychioli ac y gallem gyd-greu'r dreftadaeth.

Wedi i fenyw gytuno i gyfrannu ei stori, gwnaed apwyntiad i'r Cydymaith Prosiect ei chyfarfod mewn lleoliad o'i dewis er mwyn gwneud recordiad. Cwblhawyd ffurflen ganiatâd cam cyntaf cyn i unrhyw recordio ddigwydd. Yna rhoddwyd cyfweliad i fenywod gan ddefnyddio confensiynau cyfweliadau hanes llafar. Cynigwyd cyfle i fenywod rannu eu storïau trwy gyfrwng eu hiaith ddewisol, dewisodd pedair menyw rannu eu storïau yn y Gymraeg, rhannwyd pob stori arall yn Saesneg. Ni ddewisodd unrhyw un rannu ei stori mewn unrhyw iaith arall heblaw am Y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd y recordiadau cyntaf i gyd rhwng un a dwy awr o hyd. Yna golygwyd y recordiadau hyn gan y Cydymaith Prosiect i greu storïau digidol byrrach rhwng tair a deng munud o hyd. Cyfunwyd recordiadau wedi'u golygu gyda delweddau archif a ddarparwyd gan y cyfannwr ei hun neu a gafwyd o'r archifau a ddatgelwyd fel rhan o'r prosiect i greu stori ddigidol.

Unwaith y byddai stori ddigidol ddrafft wedi'i chwblhau, gofynnwyd i'r cyfrannwr ei hadolygu a gofynnwyd am ganiatâd eto cyn i unrhyw beth gael ei ryddhau i'r cyhoedd. O'r 28 menyw a gyfrannodd storïau drwy'r broses hanes llafar, dim ond dwy a ddewisodd i'w storïau beidio â chael eu gwneud yn gyhoeddus. Cyfrannwyd ychydig o storïau yn ddienw a, phan oedd yn angenrheidiol, newidiwyd lleisiau, enwau a delweddau'r menywod er mwyn eu cadw'n ddienw. Oherwydd ystyriaethau moesegol, fe benderfynom ar draws y prosiect na fyddai unrhyw un o'r hanesion llafar gwreiddiol yn cael ei ryddhau. Er bod colled bosibl i gyflawnder y dreftadaeth a recordiwyd oherwydd nad oeddwm wedi rhyddhau'r recordiadau hanes llafar gwreiddiol, o ystyried natur sensitif y testunau roedd yn bwysig bod menywod a gyfrannodd yn medru siarad yn agored mewn recordiadau a bod y broses adolygu mewn lle er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw beth a allai beryglu neu gyfaddawdu sefyllfa menywod yn cael ei rannu. Yn y pendraw, arweiniodd yr opsiwn o gyfrannu storïau yn ddienw ac o reoli eu dehongliad eu hunain at greu storïau cyfoethocach, mwy gonest a mwy rhyfeddol na allem fod wedi'u datgelu fel arall.

Unwaith bod storïau wedi'u cwblhau a chaniatâd wedi'i roi i'w rhannu, cyfieithwyd pob stori ddigidol; rhannwyd storïau yn yr iaith Gymraeg gydag is-deitlau Saesneg ac fel arall er mwyn galluogi pobl gael mynediad i'r storïau yn eu hiaith ddewisol heb orfod colli llais dilys y cyfrannwr. Mae'r holl storïau a gasglwyd wedi'u harchifo yn Casgliad y Werin Cymru.




# Gweithdai Goroeswyr

**Comisiynwyd Storyworks UK i gynnal nifer o weithdai gyda goroeswyr. Digwyddodd y gweithdai hyn yng Nghaerdydd, Aberystwyth a Wrecsam er mwyn sicrhau bod menywod o bob cwr o Gymru yn medru bod yn bresennol. Daeth cyfanswm o 18 o fenywod i'r gweithdai.**

Ym mhob gweithdy cafodd menywod:

- Cyflwyniad i'r prosiect.
- Cyflwyniad i egwyddorion adrodd storïau yn ddigidol.
- Cyfle i gymryd rhan mewn cylchoedd stori ac ymarferion ysgrifennu creadigol i ddysgu sut i lunio eu stori a rheoli eu dehongliad.
- Dysgu hanfodion recordio hanes llafar a'u cyflwyno i offer a meddalwedd.
- Cyfle i ddysgu am greu delweddau i ddarlunio eu storïau.

Yna, golygodd Storyworks yr holl deunydd a gynhyrchwyd yn y gweithdai i greu 22 stori ddigidol (recordiodd rhai menywod fwy nag un stori, ni roddodd un fenyw ganiatâd i'w stori gael ei rhyddhau ar ôl recordio). Unwaith eto, roedd ystyriaethau moesegol yn hollbwysig a dilynwyd protocolau ynglŷn â chydsynio i ryddhau'r storïau a'r iaith y casglwyd a rhannwyd y storïau ynddi, fel yr amlinellwyd uchod. Mae amrywiaeth y storïau a gasglwyd yn ystod y gweithdai yn arbennig o foddhaus ac mae'n galluogi casglu ystod wirioneddol o dreftadaeth. Unwaith yn rhagor, mae'r holl storïau a gasglwyd wedi eu harchifo yn Casgliad y Werin Cymru.

*Chwith: Cynrychiolaeth greadigol o stori goroeswr a wnaed yn un o weithdai Storyworks.*

# Arddangosfa Deithiol

**Crëwyd arddangosfa deithiol yn cynnwys storïau y gellid eu cyrchu gan ddyfais gludadwy, delweddau o bosteri o bob un o'r degawdau yr oeddem ni'n eu cynrychioli a 'blwch casglu storïau' – dyfais ddigidol gyda gwahanol ysgogiadau lle y gallai ymwelwyr â'r arddangosfa gofnodi eu hatgofion a'u storïau eu hunain. Ar ddechrau'r prosiect, yn ogystal â'n galwad am storïau, gwnaed cais gennym hefyd am wrthychau sy'n gysylltiedig â'r mudiad i ddileu trais yn erbyn menywod yng Nghymru. Unwaith eto, defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol, tafod leferydd ac argymhellion gan ein grŵp llywio i nodi menywod a allai fod â gwrthrychau yr hoffent eu rhoi neu eu benthyg i'r arddangosfa a'r archif.**


Wedi iddynt gael eu nodi, roedd y menywod yn medru rhoi neu fenthyg gwrthrychau. Dilynwyd y canllawiau a roddwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru o ran cyfrannu gwrthrychau gan mai nhw fyddai derbynwyr olaf yr archif. Cafodd rhai gwrthrychau a dogfennau allweddol eu dewis i'w harddangos fel rhan o'r arddangosfa derfynol yn Sain Ffagan ac adeilad y Pierhead. Yn ogystal â hyn, Cafodd llawer o'r gwrthrychau a'r dogfennau a gasglwyd eu digideiddio a chawsant eu defnyddio i ddarlunio storïau perthnasol gan sicrhau eu bod yn cael eu gweld y tu hwnt i'r archif a'r arddangosfa.

Roeddem wrth ein bodd bod cynifer o fenywod a gyfrannodd storïau yn medru mynychu agoriad yr arddangosfa yn Amgueddfa Sain Ffagan a nodi eu bod wedi teimlo ymdeimlad newydd o bwysigrwydd ac arwyddocâd eu stori berson eu hunain pan gafodd ei chyflwyno fel rhan o dreftadaeth ehangach mudiad sydd wedi cyflawni cymaint. Arddangoswyd yr holl storïau y cawsom ganiatâd i'w rhannu'n gyhoeddus o leiaf unwaith yn ystod yr arddangosfa deithiol a rhoddwyd sylw i bob un ohonynt yn y brif arddangosfa yn Sain Ffagan ac yn adeilad y Pierhead. I gael manylion am leoliadau a niferoedd ymwelwyr, gweler isod.




*Uwchlaw: Ymwelydd â'r arddangosfa deithiol ym Mhrifysgol Abertawe.*

# Cynnyrch a Pherfformiad o'u Cymharu â Thargedau



**Tri phrif gynnyrch y prosiect oedd:**

- Casgliad o storïau
- Arddangosfa deithiol ac arddangosfa derfynol o wrthychau, hanes a storïau
- Archif Cymorth i Ferched Cymru a'r mudiad yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac yn Casgliad y Werin Cymru

## Amcanion

**Mae'r prosiect wedi cyflawni'r amcanion canlynol:**

Darparu ystod o gyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â'r dreftadaeth drwy storïau digidol, arddangosfeydd yn y gymuned, a llwyfannau ar-lein, ac adeiladu fframwaith cadarnhaol ar gyfer sgyrsiau cymunedol a fydd yn herio stereoteipiau a rhagfarnau drwy ddeialog rhwng cenedlaethau, gan gadw ein treftadaeth yn fyw.

**Byddwn yn:**

**1** **Adolygu'r adegau hanesyddol allwedool sy'n ymwneud â Cymorth i Ferched Cymru a'r mudiad ehangach, gan gydnabod a blaenoriaethu amrywiaeth hunaniaethau a phrofiadau bywyd menywod.**

Nodwyd adegau hanesyddol allweddol yn ymwneud â chreu Cymorth i Ferched Cymru, ymgyrchu, gweithredu, cyllido a sefydlu gwasanaethau uniongyrchol, ein grwpiau sy'n aelodau, cymorth lloches a chymunedol, gwaith gyda phlanta phobl ifanc, gwasanaethau gan ac ar gyfer menywod duon a lleiafrifoedd ethnig, llinell gymorth Cymru, Deddf Trais yn Erbyn menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, undebau llafur, gweithredu amgylcheddol, a llawer o brofiadau personol. Casglwyd yr adegau allweddol hyn at ei gilydd ar ffurf llinell amser.[6]

**2** **Nodi menywod sy'n allweddol yn natblygiad agenda gymdeithasol a gwleidyddol ffeministaidd yng Nghymru, a roddodd ddiogelwch, cefnogaeth a llais i fenywod yng Nghymru.**

Nodwyd 26 o fenywod allweddol yn y mudiad rhyddid menywod yng Nghymru a Cymorth i Ferched Cymru a recordiwyd eu storïau.[7]

**3** **Casglu atgofion (hanesion llafar a storïau digidol) o leiaf 40 o ymgyrchwyr, goroeswyr, a staff, sydd wedi ymwneud â'r mudiad dros y 40 mlynedd diwethaf. Byddwn yn cofnodi eu myfyrdodau ar lwyddiannau'r gorffennol a heriau'r dyfodol, eu rolau fel catalydd ar gyfer newid, a'u profiadau personol o drais drwy gyfweliadau 1-1 a 2 weithdy adrodd storïau digidol (ar gyfer o leiaf 20 o wirfoddolwyr sy'n oroeswyr). Targedir gweithdai at oroeswyr yn unig a byddant yn cynnwys elfen o ddysgu adrodd storïau digidol.**

Casglodd y prosiect gyfanswm o 46 o hanesion llafar a storïau digidol gan ymgyrchwyr, goroeswyr a staff a fu'n ymwneud â'r mudiad dros y 40 mlynedd diwethaf. Cynhaliwyd 3 gweithdy adrodd storïau digidol gyda 18 o wirfoddolwyr sy'n oroeswyr mewn partneriaeth â Storyworks, gan gynnwys elfen greadigol yn ogystal â hyfforddi cyfranogwyr i ysgrifennu a recordio eu storïau. Crëwyd 22 stori o'r gweithdai hyn.

## 4

**Rhannu 40 o storïau digidol hygyrch drwy deithio i 7 lleoliad cymunedol gan gwmpasu ardal ddaearyddol eang o Gymru, rhai ffurfiol (e.e. amgueddfeydd, Prifysgol De Cymru, ysgolion), a rhai anffurfiol (llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a chanolfannau siopa), a gofodau rhithiol ar-lein.**

Rhannwyd cyfanswm o 46 o storïau digidol dwyieithog hygyrch (Saesneg a Chymraeg) drwy deithio i 9 lleoliad ar draws Cymru, yn ogystal ag ar-lein trwy Casgliad y Werin Cymru, YouTube a Facebook.

## 5

**Coladu'r canlynol ar gyfer digwyddiad ac arddangosfa derfynol sy'n arddangos taith y mudiad a'r actifyddion a'r mudiadau sy'n ymwneud ag ef: y dogfennau a'r arteffactau ffisegol (adroddiadau, papurau polisi a chyfreithiol allweddol, cylchlythyron, taflenni, erthyglau papur newydd, llyfrau, bathodynnau, crysau-t, gwybodaeth am ymgyrchu, deunydd codi arian, lluniau, a gwrthrychau eraill).**

Roedd dogfennau ac arteffactau a gasglwyd yn ystod y prosiect yn ffurfio craidd yr arddangosfa fawr derfynol a gynhaliwyd yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan yng Nghaerdydd o Ionawr 24ain i Chwefror 25ain 2019. Roedd hon yn cynnwys crysau-t, taflenni, adroddiadau, llythyron, lluniau, powlen seramig, baneri wedi'u brodio, arwyddion a mwy.

## 6

**Archifo hanesion llafar, storïau digidol a deunyddiau drwy Archif Menywod Cymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru a thrwy wefan Casgliad y Werin Cymru, fel bo'n briodol.**

Mae'r holl storïau a deunyddiau a gasglwyd yn ystod y prosiect wedi'u harchifo yn Casgliad y Werin Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Byddwn yn parhau i ychwanegu at yr archif yn y dyfodol er mwyn ehangu'r casgliad ymhellach.[8]

## 7

**Hyfforddi amrywiaeth o wirfoddolwyr a staff i gynorthwyo gyda gwahanol agweddau ar y prosiect e.e. casglu ac archifo deunyddiau, digideiddio, stiwardio arddangosfeydd (10 gwirfoddolwr).**

Cefnogwyd y prosiect gan gyfanswm o 68 o wirfoddolwyr, ynghyd â 22 o sefydliadau sy'n aelodau o Cymorth i Ferched Cymru a'u staff. Roedd y cymorth yn cynnwys stiwardio'r arddangosfeydd, cynorthwyo i archifo'r deunydd a digideiddio'r ffilmiau VHS films. Mae gwirfoddolwyr wedi parhau i ymgysylltu â'r mudiad ac i roi o'u hamser. Roedd hyn yn gyfanswm gwerth dros 50 niwrnod o waith gwirfoddoli. Nid yw hyn yn cynnwys faint o amser y treuliodd myfyrwyr Dylunio Mewnol ac Animeiddio Prifysgol De Cymru yn gweithio ar y prosiect, sy'n debygol o ddod â'r cyfanswm dros 100 niwrnod.

## 8

**Lansio digwyddiadau a chynllun cyfathrebu i hyrwyddo deunyddiau a gweithgareddau ledled Cymru gan ddefnyddio cydnabyddiaeth amlwg o gyllidwyr yn ôl y gofyn.**

Cytunwyd ar gyfathrebu ar y cyd rhwng Cymorth i Ferched Cymru a Phrifysgol De Cymru drwy gynllun cyfathrebu helaeth. Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol, talfenni, datganiadau i'r wasg, sylw ar Radio Wales ac ITV Wales ynghyd â chylchlythyrau a diweddariadau mewn cyfarfodydd.

## 9

**Cyflwyno 2 ddarlith i symposiwm blynyddol ar adrodd storïau a darlith bellach i fyfyrwyr.**

Rhannwyd gwybodaeth am y prosiect yn Symposiwm blynyddol Prifysgol De Cymru ar Adrodd Storïau a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2018 ac eto ym mis Ebrill 2019, yn ogystal ag mewn darlith â ffocws ar fyfyrwyr.

## 10

**Cysylltu'r gwaith â'r ymgyrch 40 Ymlaen, gan annog diddordeb o fewn cymunedau ynghylch sut y dylai'r 40 mlynedd nesaf edrych.**


Hysbysebwyd ein hymgyrch 40 Ymalen drwy gydol y prosiect a chawsom ymateb ardderchog gan gannoedd o unigolion. Paratowyd adroddiad ar yr adborth sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau'r cyhoedd i ddileu trais yn erbyn menywod a merched yng Nghymru.

**NODIADAU**

[6] Gweler Atodiad 1.

[7] Recordiwyd cyfanswm o 28, ond penderfynodd dwy fenyw beidio â rhoi caniatâd i rannu eu stori derfynol, gan arwain at gyfanswm o 26 stori derfynol.

[8] https://www.peoplescollection.wales/discover/query/forty%20voices%20forty%20years [Cyrchwyd 24.06.19].



*Uwchlaw: Menyw yn recordio ei stori ar gyfer y prosiect.*

# Canlyniadau

## 1 Mae treftadaeth menywod yng Nghymru, y mudiad trais yn erbyn menywod, a Cymorth i Ferched Cymru wedi cael eu dehongli, eu hesbonio, eu hadnabod a'u cofnodi'n well.

Mae'r deunyddiau a gynhyrchwyd yn cynnwys storïau digidol a hanesion llafar a gasglwyd gan oroeswyr camdriniaeth, y menywod chwyldroadol a weithiodd yn ddiflino i greu'r llochesi cyntaf ac a arloesodd ein mudiad, yn ogystal â'r menywod sydd wedi gweithio yn y mudiad dros y 40 mlynedd diwethaf; ynghyd â gwybodaeth ac arteffactau sy'n adrodd stori'r mudiad, ei gynnydd a'i frwydrau.

### Storïau Digidol

Buom yn gweithio gyda 44 o fenywod ledled Cymru o bob cefndir a chydag ystod enfawr o brofiadau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac o fudiad Cymorth i Ferched Cymru ei hun. Roedd goroeswyr, actifyddion, staff cynorthwyol ac eraill yn awyddus i recordio a rhannu eu storïau er mwyn sicrhau bod modd cael gafael arnynt fel rhan o'r prosiect ac yn y dyfodol er budd pob un ohonom. Rhannwyd y storïau hyn drwy arddangosfa (gweler yr adran nesaf), ac ar-lein. Yn ogystal â rhannu ei geiriau, roedd gan bob cyfrannwr stori ran yn y gwaith o ddatblygu delweddau gweledol i gyd-fynd â'i llais. Gyda'i gilydd, creodd y rhain ffilmiau pwerus iawn yr ydym wedi parhau i'w defnyddio yn ein gwaith polisi a'n gwaith dylanwadu ar draws y sefydliad.

### Yr Arddangosfa Deithiol

Cychwynnodd arddangosfa deithiol Deugain Llais, Deugain Mlynedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn haf 2018 ac yn wreiddiol galluogodd i'r cyhoedd gael mynediad i storïau digidol ac amrywiaeth o bosteri o'r cyfnod deugain mlynedd dan sylw. Tyfodd cynnwys yr arddangosfa deithiol wrth i'r prosiect ddatblygu, ac yn ôl gofod y gwahanol leoliadau. Gallai mynychwyr wrando ar storïau digidol a'u gwylio drwy gyfrwng dyfais a chlustffonau a gynlluniwyd yn arbennig. Roedd ail ddyfais yn galluogi recordio adborth ar lafar gan fynychwyr, er bod cyfleoedd i roi adborth ysgrifenedig hefyd ar gael.

Roedd yr arddangosfa deithiol ar draws Cymru, a chafodd ei chynnal yn:

- Yr Eisteddfod Genedlaethol, Atriwm Prifysgol De Cymru *(350 o fynychwyr)*
- Amgueddfa Cwm Cynon *(1,611 o fynychwyr)*
- Galeri Caernarfon *(40 o fynychwyr)*
- Neuadd Les Ystradgynlais *(210 o fynychwyr)*
- Prifysgol Abertawe *(200 o fynychwyr)*
- Oriel Cynulliad Cenedlaethol Cymru *(500 o fynychwyr)*
- Adeilad y Pierhead Bae Caerdydd *(800 o fynychwyr)*
- Amgueddfa Stori Caerdydd *(1937 o fynychwyr)*

Ar y cychwyn, gobeithiwyd y byddai gennym fwy o bresenoldeb yng Ngogledd Cymru ond yn anffodus cawsom ein cyfyngu gan y lleoliadau oedd ar gael ar yr adegau roedd eu hangen arnom. Byddwn yn ystyried ffyrdd y gall yr arddangosfa barhau i gael ei rhannu er mwyn sicrhau budd parhaus o'r prosiect a chyrraedd y nifer mwyaf posibl o bobl.

Felly cyfanswm nifer yr ymwelwyr â'r arddangosfa deithiol oedd 5,648.

## Yr Arddangosfa lawn

Ar Ionawr 24ain 2019 lansiwyd yr arddangosfa lawn, fis o hyd, yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan. Roedd hon yn cynnwys yr holl gynnwys o'r arddangosfa deithiol yn ogystal ag ystod eang o ddeunyddiau eraill a nodwyd, gwybodaeth ac arteffactau yn darlunio hanes ein mudiad a llinell amser o'i adegau allweddol.


Yn ystod y broses datblygu, roeddem yn falch o gael cefnogaeth myfyrwyr 2ail flwyddyn cwrs BA Dylunio Mewnol Prifysgol De Cymru. Gofynnwyd i bob myfyriwr gyflwyno ei (d) dyluniadau ei hun ar gyfer strwythur yr arddangosfa, a oedd yn cynnwys y defnydd o holl elfennau'r arddangosfa deithiol, yn ogystal â syniadau am arddangos deunyddiau ychwanegol, arteffactau a gwybodaeth.

Defnyddiwyd hyn fel cydran graidd eu gwaith cwrs ar gyfer y flwyddyn. Yna cafodd y strwythur dylunio buddugol ei ddatblygu gan y myfyrwyr fel grŵp a gellir gweld elfen o hwn yn y llun isod.


Daeth cyfanswm o 14,500 o ymwelwyr i'r amgueddfa ar adeg yr arddangosfa, ac roedd angen i bob un ohonynt fynd heibio i'r arddangosfa wrth gyrraedd, ac ymgysylltodd llawer ohonynt yn uniongyrchol â'r arddangosfa.

## Archif

o ganlyniad i'r prosiect Deugain Llais, Deugain Mlynedd, rydym wedi medru creu archif gynhwysfawr Cymorth i Ferched Cymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.




*Uwchlaw: Yr arddangosfa derfynol yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan.*




*Uwchlaw: Aelod o'r cyhoedd yn gwrando ar stori yn yr arddangosfa yn adeilad y Pierhead Bae Caerdydd.*

Gan fod gennym bellach y wybodaeth a'r sgiliau yn eu lle, mae gennym broses i sicrhau y bydd deunyddiau allweddol ychwanegol yn cael eu hychwanegu at yr archif hon yn gyfnodol yn y dyfodol er mwyn sicrhau y caiff ei diweddaru'n rheolaidd. Gobeithiwn y bydd unrhyw un sydd â diddordeb yn y mudiad yn cyrchu'r archif, ond yn enwedig academyddion sydd â diddordeb mewn ffeministiaeth, hanes cymdeithasol a gwleidyddol, sydd bellach yn cael mynediad parhaus i archif o adnoddau nad oedd modd eu cyrraedd o'r blaen er mwyn atodi eu gwybodaeth a'u hymchwil.

## Mynediad

Mae mynediad at storïau digidol a deunyddiau prosiect ar gael drwy wefan Cymorth i Ferched Cymru[9], sianel YouTube[10] a llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol (Twitter[11], Facebook[12], Instagram[13]), yn ogystal â thrwy wefan Casgliad y Werin Cymru.[14] Rhannwyd gwybodaeth bellach am y prosiect yn Symposiwm blynyddol Prifysgol De Cymru ar Adrodd Storïau a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2018 ac ym mis Ebrill 2019, yn ogystal ag mewn darlith â ffocws ar fyfyrwyr.

### NODIADAU

[9] www.welshwomensaid.org.uk [Cyrchwyd 24.06.19].

[10] https://www.youtube.com/channel/UCp5775jOzIZG9Z-c-QRbAOg/videos [Cyrchwyd 24.06.19].

[11] https://twitter.com/welshwomensaid [Cyrchwyd 24.06.19].

[12] https://www.facebook.com/Welsh-Womens-Aid-146998042522/ [Cyrchwyd 24.06.19].

[13] https://www.instagram.com/welshwomensaid/ [Cyrchwyd 24.06.19].

[14] https://www.peoplescollection.wales/discover/query/forty%20voices%20forty%20years [Cyrchwyd 24.06.19].

**Roedd adborth ysgrifenedig yn cynnwys:**

> Roedd yn therapiwtig gosod fy stori ar bapur. Emosiynol."

> Teimlai'r menywod fod yr awyrgylch yn ddiogel. Y gonestrwydd a'r dewrder. Parch."

> Roedd yn gyfle gwych i adrodd fy stori ac i helpu menywod eraill."




## 2 Grymuswyd goroeswyr camdriniaeth gan y profiad o rannu eu storïau.

**Cyfrannodd cyfanswm o 18 o oroeswyr camdriniaeth eu profiadau personol drwy gyfrwng tri gweithdy deuddydd ar adrodd storïau digidol a gydlynwyd gan Cymorth i Ferched Cymru ar y cyd gyda Storyworks.**

Wrth gwrs, mae llawer o'r rhai hynny sy'n cyfrannu eu storïau digidol drwy ddulliau eraill hefyd yn cael eu hadnabod fel goroeswyr trais yn erbyn menywod yn ogystal â bod yn actifyddion a gweithwyr sector.

Yn wreiddiol roeddem wedi cynllunio ar gyfer dau weithdy yn unig, yng Nghaerdydd a Wrecsam, ond wynebodd y rhain rai rwystrau oherwydd amgylchiadau personol, nid oedd rhai unigolion wedi mynychu yn ôl y bwriad, gan ein hatal rhag cyflawni'r niferoedd yr oeddem wedi gobeithio amdanynt yn wreiddiol. I rai roedd hyn yn deillio o salwch a/neu broblemau personol na ellid bod wedi'u hosgoi. Fodd bynnag, gall y math hwn o weithgarwch fod yn broses emosiynol anodd ac mae'n bosibl bod hyn wedi cyfrannu at absenoldeb, er gwaethaf ein sicrwydd y byddai cymorth ar gael.

Er mwyn gwneud yn iawn am y niferoedd is na'r disgwyl, trefnwyd trydydd gweithdy yn Aberystwyth ar y 23ain a'r 24ain o fis Hydref 2018.

Roedd oedran y mynychwyr yn amrywio o fenywod yn eu 30au i un cyfranogwr a oedd yn 89 mlwydd oed ac a oedd yn un o'r menywod cyntaf i gael cymorth mewn lloches yng Ngheredigion yn y 1970au.

Dywedwyd bod profiad y gweithdy ar y cyfan yn un cadarnhaol, grymusol ac adferol i bawb a gymrodd ran.

*Chwith: Dehongliad creadigol o stori goroeswr a grëwyd yn un o weithdai Storyworks.*

## 3 Cynyddwyd ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a threftadaeth mudiad Cymorth i Ferched Cymru drwy well mynediad.

**Cafodd y rheini sy’n cymryd rhan yn y prosiect a’r cyhoedd ehangach yng Nghymru fwy o fynediad i’r wybodaeth a’r deunyddiau a gasglwyd gennym yn ystod y prosiect Deugain Llais, Deugain Mlynedd drwy ystod o gyfryngau.**

**44 O UNIGOLION**

Wrth ddarparu storïau digidol ac ailymweld â’u hatgofion a’u profiadau, datblygodd cyfanswm o 44 o unigolion eu gwybodaeth o dreftadaeth Cymorth i Ferched Cymru a’r mudiad trais yn erbyn menywod a sut y mae hwn yn perthyn i gyd-destun treftadaeth ehangach.

**68**

Datblygodd 68 o wirfoddolwyr a gefnogodd y prosiect, ynghyd â 22 o sefydliadau sy’n aelodau o Cymorth i Ferched a’u staff, well dealltwriaeth o bwysigrwydd treftadaeth y mudiad, ac ymdeimlad cynyddol o falchder yn rôl eu sefydliad o fewn y mudiad ehangach.

**TUA 10,000**

Cafodd tua 10,000 o unigolion wybodaeth am y prosiect drwy adnoddau ar-lein a’r cyfryngau cymdeithasol.

**MWY NA 130**

Hyd yn hyn, mae mwy na 130 o bobl wedi bod yn rhan o’r gwaith o nodi blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol i atal trais yn erbyn menywod drwy ffurflenni adborth ffurfiol/cardiau post/grŵp llywio/ymatebion a recordiwyd (Mae casglu adborth a dadansoddi dilynol yn dal i fynd rhagddo).

**Mynychodd mwy nag 20,000 o unigolion, disgyblion a myfyrwyr, grwpiau cymunedol, ac eraill arddangosfeydd a darlithoedd gan glywed storïau pwerus goroeswyr, dysgu am y rhesymau dros y mudiad, yr heriau a’r llwyddiannau a wynebwyd ar wahanol adegau dros y 40 mlynedd diwethaf, a chan ddeall yn well pam mae angen y sector o hyd.**



# 4 Datblygodd pobl sgiliau newydd o ganlyniad i'r prosiect.

**Rhoddodd Deugain Llais, Deugain Mlynedd gyfleoedd pwysig i staff y prosiect a gwirfoddolwyr ddysgu sgiliau newydd sy'n seiliedig ar dreftadaeth a sgiliau ehangach a ddefnyddiwyd ganddynt er budd y prosiect, ac y gellir eu defnyddio hefyd yn eu bywyd a'u gyrfa yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys:**

**4** aelod o staff y prosiect a 7 gwirfoddolwr yn datblygu amrywiaeth o sgiliau newydd yn seiliedig ar dreftadaeth gan gynnwys sut i ddigideiddio deunyddiau ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau; hyfforddiant ar hanes llafar, a phrosesau casglu ac archifo.

**22** o wirfoddolwyr yn cwblhau sesiynau hyfforddio stiwardiaid a chynorthwyo yn y gwaith o stiwardio arddangosfa yn y gwahanol fannau arddangos, gan ddatblygu sgiliau allweddol wrth ymgysylltu â'r cyhoedd yn y broses.

**4** gwirfoddolwr ychwanegol yn cynorthwyo tîm y prosiect drwy lanlwytho cynnwys i wefan Casgliad y Werin Cymru, gan greu ffeithluniau i'w defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r prosiect, a chyrchu ac adolygu deunyddiau i'w harchifo ar gyfer y prosiect.

**18** o oroeswyr yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy megis technegau cyfweld, sgiliau elfennol recordio sain, a sgiliau cynhyrchu stori ddigidol, yn ystod y broses o gymryd rhan. Buont yn gweithio gyda hwyluswyr y gweithdai i ganolbwyntio ar elfennau o'r storïau yr oeddent yn dymuno eu hadrodd, gan lunio naratif ysgrifenedig y storïau hyn, creu darluniau i gyd-fynd â'r geiriau, a recordio'u lleisiau. Bydd y sgiliau y maent yn eu dysgu yn eu galluogi i ddatblygu eu storïau digidol syml eu hunain yn y dyfodol os dymunant, gan ddefnyddio ffôn symudol neu dechnoleg arall.



*Uwchlaw: Lawnsiad Sain Ffagan.*

Myfyrwyr o Brifysgol De Cymru yn datblygu eu gwybodaeth am ddylunio mewnol drwy gynllunio strwythur yr arddangosfa derfynol.

Myfyrwyr o Brifysgol De Cymru yn datblygu eu gwybodaeth am animeiddio drwy ddylunio agweddau gweledol rhai o'r storïau digidol.

# Effaith, Llwyddiannau a’r Gwersi a ddysgwyd

## Effaith

Rydym eisoes wedi dechrau defnyddio’r storïau a gasglwyd yn ystod y prosiect hwn yn ein gwaith dylanwadu a pholisi. Rydym wedi defnyddio storïau goroeswyr mewn digwyddiadau a chyfarfodydd i gyfleu profiadau personol a themâu camdriniaeth, ochr yn ochr â’r goroeswr ar adegau fel nad oes angen iddi ailymweld â’i stori ar lafar. Cawsom adborth gan randdeiliad a phenderfynwyr fod hyn yn ddylanwadol ac yn argyhoeddiadol ac mae goroeswyr yn dweud wrthym hefyd eu bod yn gwerthfawrogi gallu cyfleu eu stori mewn ffordd wahanol sydd hefyd yn rhoi rheolaeth iddynt dros y neges a phellter oddi wrth y dweud.




*Dde: Crysau-T a addurnwyd gan blant a goroeswyr yn arddangosfa derfynol Deugain Llais, Deugain Mlynedd yn Sain Ffagan, yn rhoddedig gan Cymorth i Ferched Casnewydd*

**Cawsom adborth ardderchog am yr arddangosfa gan ymwelwyr, sy'n cynnwys:**

"Mae'n gwneud i chi sylweddoli'n bod yn byw yn ein swigod ein hunain."

"Mae wedi ysgogi meddwl a myfyrio."

"Gwych i glywed storïau menywod o bob cwr o Gymru."

"Dwi'n teimlo'n falch ac wedi fy ngrymuso."

"Hanes diddorol iawn."

"Wnes i erioed sylweddoli pa mor anodd gall fod i ddianc rhag partner sy'n cam-drin."

"Wedi f'ysbrydoli."

"Cymaint o hanes anhysbys! Ac mor hanfodol i wybod amdano."

"Daeth fy ffrind â fi heno i ddangos i fi nad wyf i ar fy mhen fy hunan ac i ddweud fy ngweud."

"Mae gwrando ar storïau'r menywod hyn yn ei roi e mewn cyd-destun bywyd go-iawn."

"Roedd y llinell amser o 40 mlynedd o ddigwyddiadau wir wedi helpu rhoi pethau mewn cyd-destun a rhoi gwybod inni bod beth rydym yn gymryd yn ganiataol nawr dim ond wedi cael ei newid er gwell ychydig flynyddoedd yn ôl."

# Llwyddiannau

**Mae'r prosiect wedi rhagori ar ei holl amcanion, canlyniadau a thargedau a chafodd ei ymestyn hefyd ar ddwy achlysur gyda mannau arddangos ychwanegol yn cael eu cynnig yn oriel adeilad y Pierhead Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd ac Amgueddfa Stori Caerdydd yng nghanol y ddinas.**

Un llwyddiant arddwyddocaol fu cynrychioli profiadau amrywiol o ran oed, anabledd, ethnigrwydd ac iaith, a gwnaed gwaith yn ystod y prosiect i annog pobl o gymunedau lleiafrifol i ymgysylltu.

Er hynny, llwyddiant pwysicaf y prosiect fu'r cyfle i rannu hanes a storïau personol menywod sy'n ymwneud â'r mudiad gydag aelodau o'r cyhoedd na fyddent efallai wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn fel arall. Roedd hyn hefyd yn help i oroeswyr ddygymod â'u profiadau eu hunain.




*Dde: Rhai o dîm Cymorth i Ferched Cymru a'u plant yn y 1990au.*

# Y Gwersi a Ddysgwyd

## Cynnwys Goroeswyr

Mae gan Cymorth i Ferched Cymru brofiad sylweddol o weithio gyda goroeswyr mewn gwahanol ffyrdd ac mae'n aml yn cynghori eraill ynghylch yr arferion gorau ar gyfer y math hwn o ymgysylltu. Defnyddiwyd y profiad hwn drwy gydol y prosiect gan gynnwys sicrhau gweithdrefnau diogelu cadarn, hyfforddiant i wirfoddolwyr ar drais yn erbyn menywod, cynnwys goroeswyr yng ngrŵp llywio'r prosiect a chadw eu profiadau yn ganolog i'r prosiect. Fodd bynnag, cafwyd anhawster ynghylch presenoldeb yng ngweithdai adrodd storïau goroeswyr. Yn wreiddiol fe gynlluniwyd gennym i gynnal dau weithdy i gasglu cyfanswm o 10 stori gan oroeswyr, ond o ganlyniad i salwch ac amgylchiadau personol, cawsom nifer sylweddol yn llai na hyn. Mae'n debygol bod natur profiadau'r goroeswyr, sy'n ddigon trawmatig yn aml, wedi ychwanegu at yr absenoldeb hwn oherwydd gorbryderon ynghylch ail-fyw eu camdriniaeth neu ysgogi gorbryderon. Er mwyn sicrhau ein bod yn derbyn y nifer cywir o storïau, fe drefnwyd trydydd gweithdy gennym yng nghanolbarth Cymru, a oedd yn gost sylweddol ychwanegol arall. Yr hyn a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol oedd i ddisgwyl niferoedd mwy ceidwadol i gymryd rhan, neu fwy o gyllid ar gyfer gweithdai ychwanegol i hyrwyddo ymgysylltu.

## Yr Iaith Gymraeg

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal a'i blaenoriaethu drwy gydol y prosiect hwn. Cafodd pob cyhoeddiad a gwaith printiedig eu cynhyrchu yn ddwyieithog, cyflogwyd cydlynydd i'r prosiect oedd yn siaradwr Cymraeg rhugl, rhoddwyd isdeitlau Saesneg/Cymraeg i'r holl storïau ac ati. Fodd bynnag, dim ond tair o'r 46 stori a recordiwyd yn yr iaith Gymraeg. Ymddengys mai'r rheswm am hyn oedd bod nifer o'r siaradwyr Cymraeg wedi penderfynu siarad Saesneg wrth recordio eu stori. Pan ofynnwyd iddynt pam, dywedodd un cyfranogwr wrthym ei bod am sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn medru gwrando ar ei stori. Hyd yn oed pan roddwyd sicrwydd gan y cydlynydd na fyddai unrhyw driniaeth ffafriol yn cael ei rhoi i un iaith ô'i chymharu â'r llall, hwn oedd dewis y cyfranogwr o hyd.

## Gweithio Gyda Phartneriaid

Ar y cyfan, cawsom berthynas gadarnhaol iawn gyda'r holl bartneriaid oedd yn rhan o'r prosiect. Oherwydd ychydig o wrthdaro yn y calendr achoswyd rhai problemau yn ystod yr arddangosfa derfynol yn Sain Ffagan pan fu'n rhaid cael gwared â'r strwythurau am gyfnod byr er mwyn gwneud lle i ddigwyddiad a drefnwyd yn gynt, ac yna eu hailosod. Roeddem yn pryderu bod hyn wedi tarfu ar y rhestr o storïau a ddangoswyd ac y byddai'n golygu na fyddai ymwelwyr yn medru gweld yr arddangosfa am y cyfnodau byrion hyn. Datryswyd y broblem hon drwy drafod gyda rheolwyr yr amgueddfa.



a welcome in the valleys

WELSH WOMEN'S AID celebrated its 10th anniversary in January. This marked the first decade of the only national women's organisation in Wales providing shelter for women and children suffering domestic violence.

In the last 10 years the organisation has grown by leaps and bounds. When the first national coordinator, Jane Hutt, took up her job there were only seven WWA refuges – all in South Wales. Now there are 27 covering many urban and rural Welsh-speaking areas of the country.

The voluntary self-help movement now involves over 300 volunteers and 68 paid workers in its local groups. Its national office in Cardiff now has a staff of five while groups in rural areas are supported by three workers based in a second office in Aberystwyth. All the national workers are members of their local ACTSS branches.

The aim of Welsh Women's Aid is to set up 24-hour crisis and support services for women and children who have to leave home due to violence. In the past 12 months Welsh refuges have given shelter to 993 women and 1,580 children.

But on top of this the organisation puts great emphasis on campaigning to change laws affecting women living in refuges, particularly in the fields of housing and social security.

And in recent months training sessions have been held for most police forces in Wales in the hope of ensuring more appropriate treatment for women suffering domestic violence.

"The past 10 years", said Jane Hutt, "have been spent developing an organisation which can respond effectively to the needs of women and children, but also we have had to ensure that local Women's Aid groups are properly constituted, funded and informed about the laws and provisions affecting victims of violence".

To commemorate its 10th year WWA not only plans to publish a guide to all the laws and services relating to domestic violence, but also to hold an international conference in Cardiff in October. "We are very hopeful that women from Third World countries will attend the conference", said Jane, "so that we can all learn from each other's experiences".

*Uwchlaw: Cydlynydd Cymorth i Ferched Cymru, Jane Hutt, ac aelodau o staff yn dathlu Dengmlwyddiant Cymorth i Ferched Cymru ym 1988.*



# Cyfleoedd ar Gyfer Cadwraeth Treftadaeth yn y Dyfodol

## Storïau ysbrydoledig am Cymorth i Ferched Cymru a'r mudiad yng Nghymru

Rydym yn ymchwilio i gyfleoedd gyda Chanolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans Prifysgol De Cymru i archwilio effaith y storïau hyn ymhellach wrth iddynt barhau i gael eu defnyddio drwy ein gwaith ac i wneud eu ffordd eu hunain i mewn i'r byd. Yn ddiweddar rydym wedi derbyn cyllid effaith gan y Brifysgol i ddatblygu cyhoeddiad sy'n arddangos y storïau a'u themâu y gellir ei ddefnyddio hefyd i gynyddu'r defnydd ohonynt. Rydym hefyd wedi cychwyn ar gynlluniau i ddatblygu'r gwaith hwn i fod yn brosiect PhD posibl sy'n canolbwyntio ar effaith adrodd storïau yn y broses o ddylanwadu ar bolisi mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod a merched.

Byddwn yn parhau i roi cyhoeddusrwydd i'r prosiect ac i hyrwyddo defnydd o'r storïau, a thrwy hyn annog eraill i ychwanegu eu storïau a'u proffiadau at yr archif gynyddol hon, yn Casgliad y Werin Cymru ac yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Yn olaf, rydym wedi defnyddio'r wybodaeth a gynhyrchwyd drwy'r prosiect i greu adroddiad yn amlinellu hanes mudiad Cymorth i Ferched Cymru dros y deugain mlynedd diwethaf. Drwy'r prosiect hwn a gwaith ymchwil cysylltiedig, cadarnhawyd bod hwn yn faes ymchwil ac ysgolheictod sydd wedi derbyn sylw cyfyngedig, felly gobeithiwn ysbrydoli gwaith academaidd pellach yn y maes hwn i ddatgelu lleisiau ymylol y nifer mawr o fenywod ysbrydoledig a phwerus hyn. Gwyddom fod y rhain yn fenywod sydd wedi gweithio i newid Cymru er gwell mewn ymgais i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a dylid parhau i'w cydnabod a'u dathlu.

**Ein diolch diffuant i'r holl oroeswyr, gwirfoddolwyr, aelodau, staff, myfyrwyr, cyn-weithwyr, actifyddion, partneriaid, cyllidwyr ac arweinwyr hynny sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect anhygoel hwn ac sydd wedi bod o gymorth i daflu mwy o oleuni ar fudiad Cymorth i Ferched Cymru. Codwn o hyd.**

# Atodiad 1

## Llinell amser mudiad Cymorth i Ferched Cymru a'r cerrig milltir o ran cydraddldeb i fenywod

### 1961
Cyflwynir y bilsen atal cenhedlu

### 1964
Caiff Deddf Eiddo Menywod Priod ei diwygio

### 1967
Deddf erthylu

### 1970
Mae'r Ddeddf Cyflog Cyfartal yn diogelu'r hawl i gyflog ac amodau cyflogaeth cyfartal rhwng menywod a dynion

### 1972
Agorir y lloches gyntaf i fenywod (Llundain)

### 1973
Sefydlir Argyfwng Trais cyntaf y DU

Sefydlir Brixton Black Women's Group

### 1974
W Cynhelir Cynhadledd Genedlaethol gyntaf Rhyddid Menywod (Aberystwyth)

Sefydlir Women's Aid Federation of England

Mae dulliau Atal Cenhedlu ar gael drwy'r GIG

### 1975
Blwyddyn Ryngwladol Menywod y Cenhedloedd Unedig

W Agorir lloches gyntaf Cymorth i Ferched yng Nghymru (Caerdydd)

Mae'r Pwyllgor Dethol ar Drais o fewn Priodas yn argymell un lle teuluol mewn llochesi i bob 10,000 o'r boblogaeth

W Mae menywod Cymru yn cyflwyno'r ddeiseb gyntaf erioed i'r Llywodraeth Ewropeaidd yn galw am hawliau i fenywod

Cyflwynir y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw a'r Ddeddf Diogelu Cyflogaeth

Ffurfir Ymgyrch Erthylu Genedlaethol

## 1976

- Cyflwynir gorchmynion amddiffyn sifil gan Ddeddf Trais Domestig ac Achosion Priodasol
- Sefydlir Scottish Women's Aid

## 1977

- **Mae'r Ddeddf Tai (Pobl Ddigartref)** yn derbyn trais domestig fel meini prawf ar gyfer statws tai â blaenoriaeth
- **Caiff Diwrnod Rhyngwladol y Menywod** ei ffurfioli gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig
- **Mae'r Ganolfan Argyfwng Treisio gyntaf yn agor** (Llundain)
- **Gorymdaith gyntaf Hawlio'r Nos yn Ôl** (Caeredin)

## 1978

- W **Caiff Cymorth i Ferched Cymru ei sefydlu** gyda grant gan y Swyddfa Gymreig i gyd-lynu gwaith ac ymgyrchoedd grwpiau Cymorth i Ferched yn genedlaethol
- **Sefydlir Norther Ireland Women's Aid Federation**
- **Sefyflir Organisation of Women of Asian and African Descent (OWAAD)**

## 1979

- W **Cynhadledd Genedlaethol Gyntaf Cymorth i Ferched Cymru** (Llanfair ym Muallt)
- **Caiff Southall Black Sisters ei ffurfio**

## 1980

- W **Mae menywod sy'n gweithio yn Hoover yn streicio yn erbyn cynlluniau dileu swyddi 'menywod allan yn gyntaf'** (Merthyr Tudful)
- **Gall menywod wneud cais am fenthyciad neu gredyd yn eu henw eu hunain**
- **Caiff y 300 Group ei sefydlu**

## 1981

- W **Sefydlir Barn Merched/Women's View** Cyfnodolyn cyhoeddus chwarterol Cymorth i Ferched Cymru
- W **Mae grŵp Cymru Women for Life on Earth yn gorymdeithio o Gaerdydd i Gomin Greenham**
- **Caiff Shocking Pink Collective ei ffurfio**

## Allweddol

- W Digwyddiad/ dyddiad allweddol i Gymorth i Ferched Cymru
- W Digwyddiad/ dyddiadau allweddol yng Nghymru

## 1982

W **Crying Inside**
ffilm a gynhyrchwyd gan Cymorth i Ferched Cymru am y problemau sy'n wynebu goroeswyr a bywyd mewn llochesi

W **Mae Wythnos Gweithredu'n Wledig Cymorth i Ferched Cymru**
yn tynnu sylw at y problemau y mae goroeswyr a gwasanaethau yn eu hwynebu mewn ardaloedd gwledig

W **Mae Gorymdaith yn erbyn Diweithdra ymhlith Menywod**
yn cychwyn o Bontypridd

## 1983

**Break** W
ffilm a gynhyrchwyd gan Cymorth i Ferched Cymru am brofiadau plant o drais a'u teimladau am fyw mewn llochesi, ac a ariannwyd gan Gyngor y Celfyddydau Cymru

**Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cychwyn ar waith i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol** W

**Mae Cymorth i Ferched Cymru yn ymateb i'r Bil Diwygio Ysgariad** W
ac yn codi mater cyllid ar gyfer llochesi

## 1984

W **Sefydlir Swyddfa Cymorth i Ferched Cymru i wasanaethu ardaloedd gwledig gyda chydgysylltydd rhan-amser wedi'i lleoli yn Aberystwyth**

W **Caiff Menywod Yn Erbyn Cau Pyllau Glo ei ffurfio**
ffuriodd menywod a merched grwpiau cymorth yn ystod streic y glowyr

## 1985

**'Opening the Town Hall Door' a ysgrifennwyd gan Cymorth i Ferched Cymru** W
canllawiau ih lywodraeth leol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol, grwpiau gweithredu ac unigolion

**Mae Deddf Cyflog Cyfartal (Diwygio)**
Allows women to be paid the same as men for work of equal value

**Mae Deddf Gwahardd Enwaedu Benywod yn gwneud anffurfio organau cenhedlu benywod yn drosedd**

## 1986

W **Cyllido Cymorth i Ferched Cymru yng Nghymru Wledig**
adroddiad gan Cymorth i Ferched Cymru sy'n disgrifio'r anawsterau penodol sy'n wynebu gwasanaethau yng Nghymru wledig

W **Mae newidiadau a gyhoeddir i nawdd cymdeithasol**
yn arwain at Cymorth i Ferched Cymru yn sicrhau cyllid ar gyfer swydd benodol ar gyfer hawliau lles, i ganolbwyntio ar lobïo, datblygu polisi a hyfforddi

W **The Answer is Maybe... and That's Final**
adroddiad gan Cymorth i Ferched Cymru ar agweddau awdurdodau lleol tuag at anghenion tai menywod a phlant sy'n symud ymlaen o loches

**Trefnir Arddangosiad Cenedlaethol yn erby cam-drin domestig**
gan rwydwaith o fenywod

**Sefydlir y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) gyntaf** ar gyfer Cymru a Lloegr yn ysbyty St Marys, Manceinion

**Caiff Shakti Women's Aid ei sefydlu**

## 1987

**Sefydlir Ymddiriedolaeth Elusennol Cymorth i Ferched Cymru** W

## 1988

**Mae Cymorth i Ferched Cymru yn trefnu cynhadledd ryngwladol** W
ar drais yn erbyn menywod yn y carfref

**Ymgyrchoedd Cymorth i Ferched Cymru yn erbyn newidiadau i gymorth cyfreithiol** W

**Mae Cymorth i Ferched Cymru yn gal war aelodau** W
i ysgrifennu at eu Haelodau Seneddol ynghylch taliadau bwyd a llety

## 1989

**Mae Deddf Plant 1989 yn gosod pwyslais ar amddiffyn plant a chyfrifoldeb rhieni ond nid yw'n sôn am effaith cam-drin domestig ar ddiogelwch plant**

W **Mae Cymorth i Ferched Cymru yn lansio ymgyrch i eithrio menywod mewn llochesi rhag talu treth y pen**

## 1991

**Daw treisio o fewn priodas yn drosedd**

## 1992

W **Mae Cymorth i Ferched Cymru yn lansio ymgyrch i eithrio menywod rhag sancsiynau budd-daliadau**
os oeddent yn rhy ofnus i enwi tad y plant rhag ofn y byddai canlyniadau i hynny

W **Mae partneriaeth Cymorth i Ferched Cymru gydag Achub y Plant**
yn ariannu pecyn gwaith ar gam-drin domestig gyfer ysgolion

**Mae Ymholiad Pwyllgor Dethol Materion Cartref am Drais Domestig** yn argymell mai cyllid ar gyfer llochesi yw'r cam gweithredu pwysicaf y gall y llywodraeth ei gymryd

**Mae Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Trais yn erbyn Menywod**
yn cadarnhau bod trais yn erbyn menywod yn ymyriad â hawliau dynol

## 1995

W Gyda chefnogaeth gan Cymorth i Ferched Cymru, caiff Bawso ei lansio fel darparwr gwasanaethau arbenigol ar gyfer menywod duon a lleiafrifoedd ethnig i cham-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod yng Nghymru

W **Mae Pwyllgor Menywod Cyngor Sir De Morgannwg a Cymorth i Ferched Cymru yn lansio Ymgyrch Dim Esgusodion**
gyda chefnogaeth y stori arloesol am gam-drin domestig ar raglen 'Brookside' ar Sianel 4

## 1996

**Mae Deddf Cyfraith Teulu (1996) Rhan IV**
yn cydgrynhoi'r ddarpariaeth o orchmynion peidio ag ymyrryd a gorchmynion meddiannaeth (gwaharddebau) mewn achosion o gam-drin domestig rhwng personau cysylltiedig ac yn cyflwyno pwerau awtomatig i arestio pan fo trais wedi'i ddefnyddio neu'i fygwth

## 1997

W **Refferendwm datganoli**
mae Cymru yn pleidleisio 'Ie' i sefydlu Cynulliad Cenedlaethol i Gymru

**Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu (1977)**
"Bwriadwyd y ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â stelcian, ond fe ddrafftiwyd y troseddau i fynd i'r afael ag unrhyw fath o ymddygiad cyson sy'n achosi braw neu ofid i berson arall."

## 1998

W **Sefydlir Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**

**Mae Llywodraeth y DU yn pasio'r Ddeddf Hawliau Dynol**
sy'n offeryn pwysig i amddiffyn menywod a merched rhag trais

**Mae Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998**
yn arwain at ddadansoddi patrymau troseddu lleol, a chreu partneriaethau dioglewch cymunedol, a dynnodd sylw at raddfa'r cam-drin domestig a rhywiol

## 1999

Mae Tŷ'r Arglwyddi yn cyflwyno dyfarniad hanesyddol y dylai menywod sy'n ofni erledigaeth ar sail rhywedd gael eu cydnabod fel ffoaduriaid

W **Cynhadledd Cymorth i Ferched Cymru 'Trais Domestig, Gwneud Gwahaniaeth yn y Mileniwm'**

W **Mae Cymorth i Ferched Cymru yn rhoi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i Bwyllgor Dethol Materion Cartref ar Allgáu Cymdeithasol yng Nghymru**

## 2000

W Mae Cymorth i Ferched Cymru yn lobïo am statws angen blaenoriaethol o fewn deddfwriaeth digartrefedd i oroeswyr camdriniaeth ddomestig

W **Mae Cymorth i Ferched Cymru yn lobïo Cynulliad Cenedlaethol Cymru** sy'n arwain at gadw'r cyllid i gefnogi pobl heb gysylltiad lleol, gan amddiffyn cyllid ar gyfer llochesi i fenywod sy'n teithio i ddianc rhag trais

W **Mae Cymorth i Ferched Cymru yn ymgynghori â CAFCASS** ar y ffyrdd gorau i alluogi plant i gymryd rhan mewn achosion sy'n ymwneud â nhw

W **Mae cyfrafodydd Cymorth i Ferched Cymru a'r Asiantaeth Budd-daliadau yn arwain at ganllaw newydd ar gyfer staff budd-daliadau** ar bwysigrwydd cyfrinachedd a gweithdrefnau arbennig pan fo hawlydd mewn perygl

## 2003

**Cyflwynir Deddf Cefnogi Pobl**

**Mae'r Ddeddf Troseddau Rhywiol yn rhoi diffiniad cyfreithiol i gydsynio yng Nghymru a Lloegr**

**Mae'r Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn cryfhau ac yn diwygio Deddf Gwahardd Enwaedu Benywod 1985**

## 2004

W **Lansir Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru gan Cymorth i Ferched Cymru**

**Mae Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr yn gwneud ymosodiad cyffredin yn drosedd arestiadwy**

## 2005

W **Agorir y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol gyntaf yng Nghymru, y gyntaf yn y wlad i gael ei rhedeg gan y trydydd sector**

W **Caiff 'Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig; Dull Partneriaeth' ei lansio gan Lywodraeth Cymru**

**Sefydlir 23 o Lysoedd arbenigol ar gyfer Trais Domestig yng Nghymru a Lloegr**

## 2007

W **Mae Cymorth i Ferched Cymru yn lansio prosiect Mae Plant yn Bwysig**

W **Mae Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymorth i Ferched Cymru yn gweithredu 24 awr am y tro cyntaf**

W **Mae ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'Who do you see?' Living together in Wales** yn darganfod bod 19% o boblogaeth Cymru o'r farn mai fel mater preifat y dylai cam-drin domestig gael ei drin orau

W **Mae arolwg Amnest Rhyngwladol Cymru ymhlith myfyrwyr Cymreig** yn darganfod bod 24% o'r farn bod menyw yn gwbl neu'n rhannol gyfrifol am gael ei threisio neu ddioddef ymosodiad rhywiol os yw'n feddw

## 2009

W **Sefydlir Grŵp Gweithredu Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, y mae Cymorth i Ferched Cymru yn ysgrifenyddiaeth iddo** fel grŵp ymgyrchu, gan sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu Strategaeth ar gyfer Trais yn erbyn Menywod yng Nghymru, sy'n arwain at Strategaeth a Chynllun Gweithredu cyntaf Cymru

## 2010

W **Strategaeth genedlaethol gyntaf Cymru i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod - cyhoeddir Yr Hawl i Fod yn Ddiogel**

## 2011

W **Mae cyfansoddiad Cymorth i Ferched Cymru yn ymestyn i gynnwys cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod**

W **Mae ymgyrchu Cymorth i Ferched Cymru yn cyfrannu at gyhoeddi Ending Violence against Women and Domestic Abuse (Wales) Bill** (Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) erbyn hyn)

W **Lansir Llinell Gymorth Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru wedi'i hailfrandio** sy'n darparu cymorth dwyieithog 24 awr / 7 niwrnod yr wythnos i oroeswyr cam-drin rhywiol a domestig

W **Mae Cymorth i Ferched Cymru yn gweithio gyda Phrifysgol Morgannwg ac Anabledd Cymru i edrych ar brofiadau goroeswyr anabl cam-drin domestig**

## 2012

**Mae Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012** yn dileu bron y cyfan o feysydd cyfraith teulu breifat o gymorth cyfreithiol sifil, gan ei wneud yn llawer anos i oroeswyr cam-drin domestig gael mynediad ato

## 2013

W **Mae ymgyrchu ynghylch y Bil Dileu Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (Cymru)** yn arwain at gynnwys deg o argymhellion Cymorthi Ferched Cymru yn y Papur Gwyn

## 2014

W **Ymgyrch ar y cyd gyda Women's Aid Federation of England ar effeithiau diwygio lles ar oroeswyr cam-drin domestig**

**Cyflwynir Cyfraith Clare sy'n caniatáu i'r heddlu ddatgelu manylion am gefndir partner camdriniol**

## 2015

Yn dilyn ymgyrchu gan y sector, mae'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cryfhau ei ffocws addysgol, ac yn cyflwyno dylestswyddau statudol ynghylch ataliad, darpariaeth ac amddiffyniad ar gyfer y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru gan gynnwys dyletswydd statudol i atal trais yn erbyn menywod a merched

**Mae Cymorth i Ferched Cymru yn ysgrifennu'r Canllaw Arferion Da:** Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru, cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

**Daw Rheolaeth drwy Orfodaeth yn drosedd yng Nghymru a Lloegr**

**Caiff Llinell Gymorth Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru, a reolir gan Cymorth i Ferched Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, ei hailfrandio fel Llinell Gymorth Byw Heb Ofn**

**Mae Cymorth i Ferched Cymru yn sefydlu partneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol ac yn treialu 'Gofyn a Gweithredu' Hyfforddi'r Hyfforddwr**

**Mae Cymorth i Ferched Cymru yn lansio Achub Llochesi, Achub Bywydau:** ymgyrch sy'n galw am ddiogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau arbenigol yng Nghymru

**Mae Cynhadledd Genedlaethol Cymorth i Ferched Cymru ('Codwn o Hyd')** yn croesawu Rashida Manjoo, Rapporteur Trais yn Erbyn Menywod y Cenhedloedd Unedig, ac yn lansio rhaglen Llysgenhadon

**Mae Cymorth i Ferched Cymru yn ymgynghori gyda gwasanaethau a goroeswyr** ac yn gweithio gyda'i chwaer ffederasiwn yn Lloegr i greu "Newid sy'n Para", model newydd i hyrwyddo newid systemau mewn cymunedau lleol

**Mae Cymorth i Ferched Cymru yn treialu'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol yn llwyddiannus**

## 2016

**Mae Cymorth i Ferched Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda NSPCC Cymru, Prifysgol Caerdydd a swyddfa'r Comisiynydd Plant** i greu AGENDA: A Young People's Guide to Making Positive Relationships Matter

**Seminar Cymorth i Ferched Cymru Cam-drin Domestig: ymateb i reolaeth dan orfodaeth yng Nghymru** gan gynnwys Yr Athro Evan Stark

**Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Strategaeth Genedlaethol ar fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021**

**Mae Cymorth i Ferched Cymru yn lobïo Aelodau Seneddol** ynghylch profiadau goroeswyr o'r llysoedd teulu ac yn llywio adolygiad o 'Practice Direction 12J: child arrangements & contact order: domestic violence and harm'

**Cyoeddir adroddiad gan Cymorth i Ferched Cymru, 'Wyt Ti'n Gwrando, Ydw I'n Cael Fy Nghlywed'** ar argymhellion goroeswyr trais yn erbyn menywod, mewn partneriaeth â'r Cynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, yn dilyn nifer o grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda 66 o oroeswyr ledled Cymru

**Mae Cymorth i Ferched Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda Women's Aid Federation of England, Scottish Women's Aid, Women's Aid Federation Northern Ireland and IC Change i ymgyrchu ar gadarnhau Confensiwn Istanbul**

## 2017

W **Mae Cymorth i Ferched Cymru yn lansio SEEdS (Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr) prosiect peilot gyda goroeswyr**

W Nodir gan Estyn, yn eu harolwg o addysg perthnasoedd iach yn ysgolion Cymru, nad yw ysgolion yn dyrannu amser na sylw digonol i'r gwaith o addysgu a chefnogi plant i ddatblygu perthnasoedd diogel, iach a pharchus o oed cynnar

W **Mae'r hyn y cyfeirir ato fel 'cymal treisio' credydau treth dau blentyn yn cyflwyno eithriad lle mae menywod yn gorfod datgelu eu profiad o gael eu treisio. Mae Cymorth i Ferched Cymru a sector y menywod yn ymgyrchu yn ei erbyn**

W **Mae'r ddeddf The Preventing and Combating Violence against Women and Domestic Violence (Ratification of Convention) Act 2017** yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth y DU nodi amserlen ar gyfer cadarnhau Confensiwn Itanbul, yn dilyn ymgyrchu ar ran Cymorth i Ferched Cymru a sector y menywod

W **Caiff gwe-sgwrs ei chyflwyno gan Linell Gymorth Byw Heb Ofn**

W **Cyhoeddir Dyfodol Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru:** Argymhellion y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd 2018; roedd Cymorth i Ferched Cymru yn aelod o'r panel arbenigol

## 2018

W **Lansir mudiad rhyngwladol Time's Up fel galwad unedig am newid** yn galw am ddileu ymosodiadau rhywiol, aflonyddu ac anghydraddoldeb. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cyhoeddi datganiad Pwyso am Gynnydd a arwyddir gan dros 180 o fenywod yng Nghymru ac mae'n cynnal ei sesiwn Mae'r Amser ar Ben gyntaf

W **Cynhelir seminar gan Cymorth i Ferched Cymru a'i phartneriaid yng Nghymru i archwilio i gefnogi menywod sy'n cael eu camddefnyddio gan y diwydiant rhyw**

W Mae Cymorth i Ferched Cymru yn gweithio gyda'r grŵp celf benywaidd HEXX and Processions i greu baner a chymryd rhan gyda chyfranogaeth dorfol mewn gwaith celf i ddathlu can mlynedd o'r bleidlais i fenywod

W Mae'r Prif Weinidog, Carwyn Jones, yn cyhoeddi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gonfensiwn Istanbul a bod Llywodraeth Cymru yn llywodraeth ffeministaidd

W **Yn dilyn ymgyrchu gan y sector, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi y bydd Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn rhan statudol o gwricwlwm newydd Cymru i blant 5 i 16, o 2022**

W **Mae Cynhadledd 40 Ymlaen** Cynhadledd Genedlaethol Cymorth i Ferched Cymru, yn edrych ymlaen at ddeugain mlynedd y dyfodol

W **Cyhoeddir Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Fframwaith Cyflawni ar draws y Llywodraeth 2018-2021**

W **Mae Cymorth i Ferched Cymru yn dathlu 40 mlwyddiant – prosiect 40 Llais 40 Mlynedd[15]**

**NODIADAU**

[15] Lluniwyd gyda chymorth 'Timeline of the Women's Liberation Movement', y Llyfrgell Brydeinig https://www.bl.uk/sisterhood/timeline (cyrchwyd Ion 2019) ac ymchwil o brosiect Deugain Llais, Deugain Mlynedd.

# Atodiad 2

## Catalog o Storïau

**Crëwyd y casgliad hwn o storïau digidol a hanesion llafar ar gyfer y prosiect Deugain Llais, Deugain Mlynedd. Roedd Deugain Llais, Deugain Mlynedd yn brosiect treftadaeth dan arweiniad Cymorth i Ferched Cymru mewn cydweithrediad â Chanolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans ym Mhrifysgol De Cymru.**

Nod y prosiect oedd cyfleu hanes cudd a dathlu 40 mlwyddiant Cymorth i Ferched Cymru a dathlu gwaith y mudiad Cymorth i Ferched a thrais yn erbyn menywod yng Nghymru. Bydd yn gwneud hyn gyda chasgliad o hanesion llafar, storïau digidol, gweithdai, arddangosfa a deunyddiau archif gan fenywod a gwasanaethau. Rhoddwyd cyfweliad i gyfranogwyr y prosiect a golygwyd y rhain gan Catrin James, Cydymaith Prosiect.

Bydd y prosiect nid yn unig yn gwella ein dealltwriaeth o'r mudiad trais yn erbyn menywod yng Nghymru, ond bydd hefyd yn gwella ein gwybodaeth gymunedol am y mathau hyn o gamdriniaeth a'n gwaith ni i'w atal. Rydym hefyd am annog myfyrdod ar ein blaenoriaethau fel mudiad, wrth i ni weithio tuag at y nod a rannwn o ddileu trais yn erbyn menywod unwaith ac am byth.

| | Enw | Stori | Dyddiad | Cyfweliad neu weithdy | Wedi'i recordio yn Gymraeg |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Sue Bowyer | Gweithiodd Sue i Cymorth i Ferched Cymru yn y 1980au a'r 1990au. Mae'n rhannu ei stori am lunio polisi tai ar gyfer Cymorth i Ferched Cymru. | 2018 14 MAI | Cyfweliad (meicroffon) | |
| 2 | Jane Hutt | Mae Jane yn rhannu ei stori am fod yn gydgysylltydd cyntaf Cymorth i Ferched Cymru ym 1978 a'r dylanwad a gafodd ei gwaith ar y mudiad trais yn erbyn menywod yn y cyfnod hwn. | 2018 25 MAI | Cyfweliad (meicroffon) | |
| 3 | Lynne Sanders | Lynne yw Prif Weithredwr Cymorth i Ferched Abertawe. Mae Lynne yn esbonio sut ymunodd â'r mudiad trais yn erbyn menywod ac mae'n disgrifio'i bywyd gwaith. | 2018 4 MEHE | Cyfweliad (meicroffon) | |
| 4 | Natasha Hirst | Mae Natasha yn rhannu ei stori am fynd i mewn i loches. | 2018 14 MEHE | Cyfweliad (meicroffon) | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 | Cathy Elder | Mae Cathy yn rhannu ei barn ar ffeministiaeth yng Nghymru yn y 1970au a'r hyn a ysbrydolodd ei hagwedd ffeministaidd hithau fel menyw ifanc yn y cyfnod hwn. | 2018 10 MAI |
| 6 | Elwen Roberts | Mae Elwen yn disgrifio sut y bu Cymorth i Ferched Cymru o gymorth iddi hi a'i phlant symud o loches i loches yng Ngogledd Cymru ar ddiwedd yr 80au. | 2018 3 GORFF |
| 7 | Rose Davies | Mae Rose yn disgrifo sut y sefydlodd sgwat ar gyfer menywod a phlant digartref yn Abertawe ar ddechrau'r 1970au. | 2018 26 GORFF |
| 8 | Anonymous | 'The War Wounds of a Military Wife'. Stori ddienw a roddwyd i'r prosiect 40 Llais, 40 Mlynedd wedi'i hanimeiddio gan fyfyrwyr cwrs animeiddio blwyddyn 1af Prifysgol Cymru. | 2018 21 TACH |
| 9 | Ann Williams | Ann yw rheolwr Llinell Gymorth Byw Heb Ofn. Mae'r llinell gyfrinachol yma yn wasanaeth 24 awr sy'n rhoi cymorth i bobl sy'n profi cam-drin domestig, trais rhywiol neu drais yn erbyn menywod. Mae Ann yn disgrifio'r hyn mae hi'n ei wneud yn ei swydd. | 2018 7 AWST |
| 10 | Haf & Angela | Mae Angela a Haf yn gweithio ac yn gwirfoddoli gyda Llinell Gymorth Byw Heb Ofn sy'n llinell gymorth 24 awr gyfrinachol i gefnogi menywod sy'n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol neu drais yn erbyn menywod. Mae Angela a Haf yn sôn am eu gwaith gyda'r llinell gymorth. | 2018 7 AWST |
| 11 | Roz Waterhouse | Roz oedd gweithiwr plant cyntaf Cymorth i Ferched Caerdydd ar ddiwedd y 1970au. Mae Roz yn rhannu ei storïau am ei chyfnod yn gweithio gyda phlant ac mewn llochesi yng Nghaerdydd. | 2018 13 AWST |
| 12 | Mandy Kermas | Mae Mandy wedi gweithio i Cymorth i Ferched Casnewydd am 25 mlynedd. Mae Mandy yn rhannu ei stori am oroesi camdriniaeth ddomestig a chychwyn gweithio ym maes llochesi a chymorth. | 2018 23 AWST |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 13 | Rebecca Haycock | Rebecca yw Cynghorydd Rhanbarthol Gwent ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Uned Diogelu Plant a Theuluoedd, Cyngor Sir Casnewydd. Mae Rebecca yn disgrifio'i rôl a'r gwaith a wna. | 2018 6 MEDI | |
| 14 | Jen Wilson | Jen yw crëwr Women's Jazz Archive Wales. Mae Jen yn rhannu'r hyn yr oedd ffeministiaeth yn ei olygu iddi hi fel cerddor ifanc benywiadd yn Ne Cymru'r 1960au a'r 1970au. | 2018 1 HYD | |
| 15 | Eleri Butler | Eleri yw Prif Weithredwr Cymorth i Ferched Cymru. Mae Eleri yn rhannu'r hyn a'i hysbrydolodd ac a ddylanwadodd arni i weithio dros newid i atal trais yn erbyn menywod. Mae Eleri hefyd yn rhannu'r newidiadau a wnaed yn y mudiad dros y 3 degawd diwethaf a'i gobeithion am y dyfodol. | 2018 2 HYD | |
| 16 | Mwenya Chimba | Mwenya yw pennaeth hyfforddiant Cymorth i Ferched Cymru ac mae wedi gweithio cyn hyn i BAWSO. Mae Mwenya yn rhannu ei barn am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. | 2018 2 HYD | |
| 17 | Steff Gready | Mae Steff yn rhannu ei stori am sut y dylanwadodd y menywod Cymreig yng Ngwersyll Heddwch Greenham ar ddechrau'r 1980au arni i adael y fyddin a dod yn ffeminydd. Mae Steff hefyd yn rhannu'r ffaith iddi gael ei magu mewn cartref treisgar a sut y bu i ffrind a weithiai i Cymorth i Ferched Cymru newid ei bywyd. | 2018 2 HYD | |
| 18 | Archif Menywod Cymru | Mae Archif Menywod Cymru a'u cyfeillion yn canu cân ar achlysur ail-greu'r Orymdaith i Gomin Greenham a drefnwyd gan Archif Menywod Cymru. | 2018 27 AWST | |
| 19 | Deborah Checkland | Roedd Deborah yn un o sylfaenwyr Canolfan Merched Abertawe yng nghanol y 1970au. Mae Deborah yn sôn am ba wasanaethau roedd y ganolfan yn eu cynnig a'r hinsawdd boliticaidd ffeministaidd yn y cyfnod. | 2018 18 HYD | |
| 20 | Jemma Wray | Jemma yw Pennaeth Cenedlaethol Plant Mewn Angen Cymru. Mae Jemma yn sôn am y dylanwadau ffeministaidd arni a'i barn ar y mudiad trais domestig, cam-drin domestig a cham-drin rhywiol a sut i'w newid. | 2018 7 TACH | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 21 | **Karmen Thomas** | Sefydlodd Karmen 'Women for Life on Earth' sef y grŵp cyntaf o fenywod a orymdeithiodd i Gomin Greenham ar ddechrau'r 1980au. Mae Karmen yn sôn am sut y gwnaeth hyn gyda chymorth ffrindiau. | 2018 8 TACH |
| 22 | **Shereen Williams** | Shereen yw Rheolwr Clymu Cymunedau Cyngor Sir Casnewydd a Threfynwy. Mae Shereen yn sôn am ei hangerdd am gyfiawnder cymdeithasol o fewn diwylliannau a chrefyddau amrywiol gwahanol a sut y mae'n bwydo i mewn i'w gwaith o gefnogi cymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ardal Casnewydd a Threfynwy. | 2018 27 TACH |
| 23 | **Rachel Williams** | Mae Rachel yn llysgennad Cymorth i Ferched Cymru. Mae Rachel yn rhannu ei stori am oroesi o gael ei saethu yn ei braich gan ei chyn-ŵr, ei hadferiad a sut y mae ei phrofiad yn awr o gymorth i fenywod eraill sydd wedi profi cam-drin domestig. | 2018 3 RHAG |
| 24 | **Angelina Rodriguez** | Roedd Angelina yn Ddirprwy Brif Weithredydd BAWSO rhwng 2001-18. Gweithiodd Angelina ar lefel Genedlaethol a Rhyngwladol mewn partneriaeth ag amrywiol fudiadau i wella polisi ac arferion ar gyfer menywod a merched duon a lleiafrifoedd ethnig. Mae Angelina yn sôn am ei phrofiadau o weithio i BAWSO, y prosiecatu y mae hi wedi gweithio arnynt a'r gwasanaethau a ddatblygodd ar gyfer menwyod duon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. | 2018 4 RHAG |
| 25 | **Shavanah Taj** | Shavanah yw Ysgrifennydd a Swyddog Cenedlaethol Cymru a'r De Orllewin, Undeb Llafur PCS ac mae'n Ymddiriedolwr ar gyfer The Henna Foundation. Mae Shavanah yn sôn am ei gwaith a'i brwdfrydedd dros gydraddoldeb a hawliau dynol. | 2018 12 RHAG |
| 26 | **Stori Sarah** Aberystwyth | Mae Sarah yn rhannu ei stori am oroesi cam-drin domestig. | 2018 24 HYD |
| 27 | **Stori Tannith** Aberystwyth | Mae Tannith yn rhannu'r stori o sut y bu iddi hi a'i merched oroesi cam-drin domestig. | 2018 24 HYD |
| 28 | **Stori Margaret** Aberystwyth | Mae Margaret yn rhannu stori o oroesi cam-drin domestig a chancr a'r gwahanol ymddygiadau sy'n digwydd yn gyhoeddus ac yn breifat. | 2018 24 HYD |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 29 | **Stori Lorna** Aberystwyth | Mae Lorna yn rhannu stori o oroesi cam-drin domestig fel plentyn ac fel oedolyn. | 2018 24 HYD |
| 30 | **Stori Joan** Aberystwyth | Mae Joan yn rhannu'r stori o sut y bu iddi benderfnynu gadael priodas gamdriniol ar ôl 30 mlynedd. | 2018 24 HYD |
| 31 | **Stori Jenni** Aberystwyth | Mae Jenni'n trafod atgofion ailadroddus o gael ei threisio. | 2018 24 HYD |
| 32 | **Stori Kara** Aberystwyth | Mae Kara'n rhannu stori am yr hyn y mae cael ei chartref diogel ei hunan yn ei olygu iddi hi. | 2018 24 HYD |
| 33 | **Stori Caryl** Aberystwyth | Mae Caryl yn rhannu stori am y rheolaeth o fewn perthynas gamdriniol. | 2018 24 HYD |
| 34 | **Stori Angela** Aberystwyth | Mae Angela yn rhannu stori am fynd i mewn i loches ac yna sefydlu cymuned o gefnogaeth ymhlith menywod. | 2018 24 HYD |
| 35 | **Stori Lisa** Wrecsam | Mae Lisa yn rhannu stori am anawsterau gadael perthynas gamdriniol mewn lleoliad gwledig. | 2018 17 MAI |
| 36 | **Stori Vicky** Caerdydd | Mae Vicky yn rhannu stori am sut y mae'n rhannu ei phrofiad ei hun er mwyn bod o gymorth i fenywod eraill ddarganfod cryfder. | 2018 21 MEHE |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 37 | **Stori Kate**<br>Caerdydd | Mae Kate yn sôn am y daith hir y mae wedi'i chymryd i ymadael â pherthynas gamdriniol. | 2018<br>21<br>MEHE |
| 38 | **Stori Sarah**<br>Wrecsam | Mae Sarah yn rhannu stori am y cymorth a gafodd yn lloches Wrecsam. | 2018<br>17<br>MAI |
| 39 | **Stori Bethan**<br>Caerdydd | Mae Bethan yn rhannu stori am ei drama, sydd wedi ennill sawl gwobr, sy'n archwilio storïau am gam-drin domestig.<br><br>Mae Bethan yn trafod ei gwaith o archwilio storïau am gam-drin domestig. | 2018<br>21<br>MEHE |
| 40 | **Stori Debbie**<br>Caerdydd | Mae Debbie yn rhannu stori am gam-drin doestig o fewn y fyddin.<br><br>Mae Debbie yn trafod ei phrofiadau fel gwraig i filwr. | 2018<br>21<br>MEHE |
| 41 | **Stori Claire**<br>Wrecsam | Mae Claire yn rhannu stori am sut y cyflawndodd ei photensial drwy ymgysylltu â Cymorth i Ferched Cymru.<br><br>Mae Claire yn trafod effaith rheolaeth drwy orfodaeth. | 2018<br>17<br>MAI |

## 42

## Katie's Story
Cardiff

Mae Katie yn rhannu ei stori am yr angen i sicrhau bod lleisiau ei phlant yn cael eu clywed o fewn y llysoedd teulu.

Mae Katie yn trafod ei phrofiadau o'r llysoedd teulu.

2018
21
MEHE




*Uwchlaw: Dathliadau Deugain mlynedd Cymorth i Ferched Cymru.*

# Atodiad 3

## Amserlen yr Arddangosfa



# Atodiad 4

## Adrodddiad Deugain Ymlaen

## Syniadau o Gymru i ddileu trais yn erbyn menywod

**Yn ystod blwyddyn dathlu 40 mlwyddiant Cymorth i Ferched Cymru yn 2018, gofynnwyd i'r cyhoedd ddewud wrthym am eu balenoriaethau ar gyfer dileu trais yn erbyn menywod a merched yn ystod y 40 mlynedd nesaf.**

Cawsom ymateb ysgubol i'n hymgyrch gan gannoedd o bobl ledled Cymru a ddywedodd wrthym mai eu blaenoriaethau oedd:

1. **Addysg Perthnasoedd Iach**
2. **Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac agweddau cymdeithasol niweidiol**
3. **Arweinwyr a hyrwyddwyr gwybodus ac ymrwymedig**
4. **Ymyrraeth ac ataliad cynnar**
5. **Cadw'r goroeswr yn ganolbwynt**
6. **Gwasanaethau hygyrch sydd wedi'u llywio gan drawma**
7. **Gwasanaethau arbenigol cynaliadwy**
8. **Ymyriadau diogel i ddrwgweithredwyr**
9. **Diwygio'r system cyfiawnder troseddol**

Deugain Ymlaen

**Dyma a ddywedodd ymatebwyr wrthym:**

### 1 Healthy relationships education

- "Addysgu dynion ifanc oed gadael ysgol cyn iddyn nhw gael perthnasoedd rhywiol."
- "Addysg i blant o bob oed."
- "Addysgu dynion ifanc nad yw'n dderbyniol."
- "Torri'r cylch. Ariannu addysg i godi ymwybyddiaeth gan gychwyn ar lefel ysgol gynradd."
- "Herio ysgolion i siarad a thrafod materion ynghylch trais yn erbyn menywod a merched a'r normau ynghylch sut y mae merched a bechgyn yn ymddwyn."
- "Gwasanaethau mewn prifysgolion ac ysgolion."
- "Gwell addysg am berthnasoedd mewn ysgolion."
- "Addysg am gam-drin o fewn perthnasoedd ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau ar gyfer pobl ifanc mewn ysgolion."
- "I addysgu pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar am beth yw perthynas iach."
- "Addysg ar gyfer perthnasoedd iach – gosod ffiniau i blant."
- "Addysg; disgwyliadau o'r rhywiau a'r effaith ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol."
- "Mwy o weithwyr a gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi am drais domestig a thrais rhywiol o fewn ein hysgolion i godi ymwybyddiaeth a chefnogi'n falch."

## 2 Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac agweddau cymdeithasol niweidiol

- "Newid agwedd cymdeithas tuag at fenywod yn gyffredinol."
- "Addysgu pobl am hyn. Grwpiau codi ymwybyddiaeth."
- "Gallu siarad yn agored heb deimlo'n euog."
- "Mae sêr pop yn gwerthu recordiau gan ddefnyddio rhyw, mae ffasiwn yn dilyn ac mae merched ifanc yn copïo eu modelau rôl, addysgwch ferched ifanc hefyd."
- "Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth."
- "Ail-addysgu rhaglenni sebon a dramaâu teledu sy'n dangos trais a chyffuriau."
- "Mwy o enghreifftiau o ymddygiad cywir a chefnogi menywod a phlant."
- "Dadlau dros wir gydraddoldeb."
- "Addysgu – y gweithle, ysgolion, y cartref, clybiau nos, tacsis, cynghorau, y GIG, Y Senedd, carchardai."
- "Mentoriaid ar gyfer menywod ifanc ar gyfer sut i fod yn hyderus i chwalu stereoteipiau a chael eu grymuso."
- "Mwy o dynnu sylw gan y cyfryngau at gam-drin domestig, cam-drin emosiynol yn benodol."
- "Gofal plant am ddim i bob plentyn hyd at 16 mlwydd oed fel bod menywod a phlant yn gallu gweithio a byw'n annibynnol."
- "Cyflog cyfartal ar drawsrhyw/rhywioldeb."
- "Gwahardd gwneud menywod yn wrthrychau - teledu, hysbysebu ac ati."
- "Gwahardd stereoteipio ar sail rhywedd."
- "Mae angen newid strwythurol a chymdeithasol o gylch anghenion cydraddoldeb rhywiol."
- "Mwy o ymgyrchoedd i atal drwgweithredwyr a gwasanaethau atebol."
- "Cyfathrebu mewn cymunedau ac addysgu pawb am gam-drin domestig."
- "Mae angen newid mewn diwylliant arnon ni sydd ddim yn goddef cam-drin menywod a merched (e.e. aflonyddu, gwrthrychioli, rhywiaeth ac ati)."
- "Mwy o ymwneud tu allan i'r byd trais domestig a phroffesiynol.Yn y gymuned."
- "Modelu rôl positif i ddynion."

## 3 Arweinwyr a hyrwyddwyr gwybodus ac ymrwymedig

- "Addysgu Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol."
- "Mwy o fenywod yn ymwneud â gwleidyddiaeth yn lleol ac yn genedlaethol."
- "Llunwyr polisi, deddfwyr, comisiynwyr i gymryd amser i ddeall achosion a chanlyniadau trais yn erbyn menywod. Os nad ydyn nhw'n deall, dylen nhw greu comisiwn."
- "Cyflawni strategaeth wirioneddol integredig ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched."

## 4 Ymyrraeth ac ataliad cynnar

- "Cymorth rhianta fel ymyrraeth gynnar i atal dod i gysylltiad â rhianta treisgar neu anrhefnus."
- "Gwaith ataliol gyda bechgyn a dynion sydd ag iechyd meddwl gwael neu sy'n dangos ymddygiadau peryglus."
- "Ymgyrch gyda negeseuon clir i deulu a ffrindiau ar sut i adnabod perthnasoedd nad ydyn nhw'n iach a darparu cymorth."
- "Cyllido cefnogaeth i raglenni ar gyfer 13-18 oed."
- "Cyllid arwahân ar gyfer mentrau ataliol cydgysylltiedig."
- "Buddsoddi mewn cwmnïau i edrych am lawer o gefnogaeth trais domestig (absenoldeb salwch) o gylch hyn."
- "Mwy o arian i asiantaethau arbenigol i fuddsoddi mewn cymorth/addysg."
- "Cymorth i blant."
- "Hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant i adnabod rhai sydd wedi'u heffeithio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol."
- "Ymyrraeth yn ystod plentyndod gan berson penodedig y mae modd ymddiried ynddo i alluogi plant i siarad yn ddiogel."

## 5 Cadw'r goroeswr yn ganolbwynt

- "Dywedwch os ydych yn oroeswr, helpwch ddweud wrth rywun – cymrwch ran, defnyddiwch eich llais."
- "Dylai'r heddlu ei gymrud o ddifrif pan wneir cwyn."
- "Darparu cymorth i ddioddefwyr gyda thrais domestig nad yw o fewn trothwy MARAC."
- "Rhwydweithio goroeswyr."
- "Mwy o SEEdS mewn digwyddiadau siarad."
- "Gwrandewch ar oroeswyr – codwch eu lleisiau."
- "Gwell cymorth, cefnogaeth gwaith i oroeswyr, yn arbennig goroeswyr trais rhywiol."
- "I beidio gwrthod goroeswyr trais yn erbyn menywod, gwrandewch arnyn nhw'n weithredol."
- "Darparu opsiynau. Mae goroeswyr eisiau mwy nag un man lle y gallan nhw fynd a does dim angen eu hatal gan gylchoedd gwaith."

## 6 Gwasanaethau hygyrch, wedi'u llywio gan drawma

- "Cymorth ôl-ofal."
- "Hyfforddiant ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol."
- "Hyfforddiant trais domestig ar gyfer asiantaethau statudol – yr heddlu."
- "Gweithio gyda CAFCASS sy'n rhoi menywod o dan fwy o anfantais yn y broses llys."
- "Sicrhau fod gan fenywod fynediad i fannau diogel, adnoddau a gwasanaethau."
- "Llochesi hunangynhaliol."
- "Sicrhau lloches arbenigol sy'n cynnwys camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, anableddau, teithwyr."
- "Sicrhau bod menywod sydd heb hawl i gael cyllid cyhoeddus yn medru cael mynediad i lochesi."
- "Llochesi, dim hawl i gael cyllid cyhoeddus, menywod duon a lleiafrifoedd ethnig."
- "Mynd i'r afael â'r diwylliant o feio'r dioddefwr, ar draws gwasanaethu h.y. ymwybyddiaeth o ddioddefwyr er mwyn diogelu."
- "Ni ddylai goroeswyr orfod dibynnu ar weithwyr cymorth i ddelio gyda thrawma. Buddsoddwch mewn therapïau seicolegol."

## 7 Gwasanaethau arbenigol cynaliadwy

- "Ariannu gwasanaethau menywod lleol yn briodol er mwyn darparu gwasanaeth arbenigol."
- "Gweithio gyda sefydliadau lleol."
- "Mwy o wasanaethau i gefnogi a chynorthwyo teuluoedd."
- "Cyllid cynaliadwy i grwpiau arbenigol yn y trydydd sector."
- "Cyllid diogel ar gyfer gwasanaethau cymorth i fenywod."
- "Mwy o lochesi."
- "Cynnal cyllid ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol."
- "Gwir fuddsoddi mewn gwasanaethau arbenigol i fenywod fel bod ganddyn nhw gyllid hirdymor cynaliadwy i'w gorfodi i gadw staff sy'n buddsoddi."
- "Mynd i'r afael ag anghydbwysedd mewn cyllid ar gyfer y sector. Nid sector y menywod, mae'n broblem trais gwrywaidd."
- "Cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau rheng flaen."
- "Cyllid priodol, pam rydym yn cystadlu gyda gwasanaethau gwethfawr eraill?"
- "Mwy o gyllid o ran menywod yn medru cael mynediad at gronfeydd teithio i lochesi, mwy o lochesi, unedau gwasgaredig ac ati."
- "Mwy o gyllid/gwasanaethau i leihau'r anhawster i'r rhai a effeithir o ran cael mynediad at wasanaethau."

## 8 Ymyriadau diogel i ddrwgweithredwyr

- "Rhyw fath o gosb neu hyfforddiant oherwydd tra bod y dioddefwr trais domestig yn dal i ddioddef wedyn o ran bod yn ddigartref ac effeithiau'r trais domestig a llawer eraill mae'n ymddangos yn annheg dim ond i'r person yna gael m ynd i ffwrdd a byw bywyd normal yn enwedig ar gyfer cam-drin meddyliol (pob cam-drin)."
- "Rhaglenni drwgweithredwyr."
- "Mwy o grwpiau ar gyfer drwgweithredwyr er mwyn atal."
- Mwy o raglenni adsefydlu ar gyfer drwgweithredwyr."
- "Cymorth sy'n canolbwyntio ar y drwgweithredwr."
- "Atebolrwydd drwgweithredwyr heb osgoi model ffeministaidd h.y. gwrywdod gwenwynig ac ati."

## 9 Diwygio'r system cyfiawnder troseddol

- "Mwy o bwerau i'r heddlu weithredu pan gânt eu galw allan."
- "Gwneud cymorth cyfreithiol yn haws ei gael/gwneud cais amdano."
- "Gorfodi canlyniadau cryfach i'r rhai sy'n torri telerau mechnïaeth, fel y gwnaeth fy nghyn-bartner lawer gwaith. Tagio'r pigyrnau efallai neu deledu cylch cyfyng ar gyfer tai/ceir drwgweithredwyr i gael tystiolaeth."
- "Mynd i'r afael â'r system llysoedd teulu aneffeithiol. Does dim cymorth cyfreithiol i lawer o fenywod."
- "Atebolrwydd i'r llysoedd i'w gael e'n gywir."
- "Cosbau llymach i ddrwgweithredwyr yn system y llysoedd."
- "Gwell dedfrydu ar gyfer drwgweithredwyr."
- "Mynd i'r afael â'r system cynhaliaeth plant ddiwerth. Gall orfodi menywod i aros/dychwelyd am ddiffyg arian gan riant."
- "Mae angen mwy o adnoddau ar yr heddlu i lwyr gefnogi menywod. Nid yw'r P.I.N. yn ddigon effeithiol."
- "Mae angen i'r heddlu weithredu ar sail y deddfau trais domestig presennol er mwyn gorfodi cosbau am gam-drin, gan anwybyddu deddfau newydd."
- "Dylid cydnabod trais domestig yn y llysoedd teulu er mwyn amddiffyn menywod a phlant rhag cael eu cam-drin ymhellach oherwydd cyswllt plant."
- "Mwy o hyfforddiant i'r heddlu, i'w gymryd yn fwy o ddifrif."

Caiff yr adborth hwn ei ddefnyddio i lywio ein gwaith wrth symud ymlaen a chaiff ei adlewyrchu hefyd ym mlaenoriaethau ein strategaeth sefydliadol newydd, 'Codwn o Hyd'.




# Ein Blaenoriaethau 2019-2024

## 1 Atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol rhag digwydd yn y lle cyntaf

Rydym wedi ymrwymo i ataliad sylfaenol, sy'n cynnwys addysg i newid agweddau a chanfyddiadau, er mwyn atal camdriniaeth rhag diwydd yn y lle cyntaf. Gellir ei dargedu'n gyffredinol neu at grwpiau penodol, megis plant neu aelodau o gymuned benodol. Mae gwaith ataliol yn gofyn am ymrwymiad i herio a newid y normau cymdeithasol a diwylliannol, systemau a strwythuaru sy'n achosi i gamdriniaeth, niwed ac anghydraddoldebau barhau. Mae angen i waith ataliol hefyd fynd i'r afael â'r ffaith bod trais yn erbyn menywod a merched yn strwythurol ac yn un o'r dulliau cymdeithasol sy'n gorfodi israddio menywod a merched mewn cymdeithas. Am y rheswm hwn, mae gweithio i gael rhagor o ryddid i fenywod a merched, i herio a dadgysylltu normau cymdeithasol ar gyfer y rhywiau, ac i ddatgymalu patriarchaeth a systemau eraill o ormes, yn ddull allweddol o gyflawni'r gwaith o'i atal.

## 2 Sicrhau darpariaeth gwasanaethau o ansawdd ar gyfer goroeswyr sy'n adeiladu ar gryfderau, yn diwallu anghenion ac yn lleihau effeithiau niweidiol camdriniaeth dros amser

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau a chymorth rhagorol i aelodau sydd o gymorth i wasanaethau arbenigol gynnig darpariaeth o ansawdd, fel canolfannau rhagoriaeth yn eu cymunedau. Mae darpariaeth effeithiol yn dibynnu ar adnabod cyn gynted ag sy'n bosib y rheini sy'n debygol o brofi camdriniaeth, ac i ddarparu adnoddau a chymorth o ansawdd uchel i atal mwy o gam-drin ac i leihau ei effaith ("ataliad eilaidd"). Mae darpariaeth effeithiol hefyd yn ddibynnol ar gynnig cymorth ac eiriolaeth tymor hwy i leihau'r trawma a'r niwed a achosir o ddod i gysylltiad â thrais a chamdriniaeth dros gyfnod mwy estynedig, sy'n aml yn gronnol i fenywod a merched ("ataliad trydyddol").

## 3 Creu partneriaethau effeithiol gyda goroeswyr, gwasanaethau arbenigol ac eraill er mwyn cryfhau ein mudiad i gyflawni newid sy'n parhau

Rydym wedi ymrwymo i ymhelaethu ar brofiadau amrywiol goroeswyr ac i ddatblygu a chydweithredu mewn partneriaeth mewn ffordd sy'n cynnal ein gwerthoedd ac sy'n dangos parch, tryloywder, gonestrwydd ac uniondeb ar y ddwy ochr, a hynny'n sail i'n holl waith. Drwy ganolbwyntio ar gydweithredu er mwyn gwella'r ymatebion i'r rheini sy'n profi gwahaniaethu lluosog – menywod duon a lleiafrifol, lesbiaid, menywod anabl, menywod mudol, pobl ifanc, menywod hŷn, menywod trawsrywiol – ein nod yw gwella mynediad at gymorth a chyfiawnder i bawb sy'n goroesi camdriniaeth.

**Yn ganolog i'n holl waith mae lleisiau a phrofiadau goroeswyr camdriniaeth, y rheini sy'n byw o ddydd i ddydd gan oroesi camdriniaeth neu gyda gwaddol ei effaith, sy'n gweithio o fewn ein mudiad, sy'n defnyddio ein gwasanaethau neu beidio, sy'n dod yn actifyddion cymunedol neu sy'n gweithio o fewn asiantaethau eraill.**

Hoffem ddiolch i'r holl oroeswyr, gwirfoddolwyr, aelodau Cymorth i Ferched Cymru a gwasanaethau arbenigol, staff presennol a blaenorol, myfyrwyr, actifyddion, partneriaid, cyllidwyr, lleoliadau ac arweinwyr sydd wedi cyfrannu o'u hamser a'u gwybodaeth arbenigol i gwblhau'r prosiect pwysig hwn.

Hoffem ddiolch hefyd i'n Grŵp Llywio Prosiect am eu harweiniad:

Eleri Butler *Prif Weithredwr, Cymorth i Ferched Cymru*

Tina Reece *Pennaeth Ymgysylltu ac Arweinydd Prosiect, Cymorth i Ferched Cymru*

Emily Underwood-Lee *Canolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans, Prifysgol De Cymru*

Bethan *Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr (SEEdS)*

Lynne Sanders *Cymorth i Ferched Abertawe*

Robert Phillips *Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

Owain Rees *Amgueddfa Genedlaethol Cymru*

Karen Lewis *Canolfan Cydweithredol Cymru*

Diolch yn arbennig i Catrin James, Becky James a Rose Baxter am eu cefnogaeth i'r prosiect.

Cyhoeddwyd gan Cymorth i Ferched Cymru 2019.

Cymorth i Ferched Cymru, Tŷ Pendragon, Caxton Place, Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE.

Am ragor o wybodaeth am Cymorth i Ferched Cymru ewch os gwelwch yn dda at: www.welshwomensaid.org.uk neu gallwch ddod o hyd i ni ar Twitter, Facebook, Instagram a YouTube @welshwomensaid

© Cymorth i Ferched Cymru 2020.

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

ARIENNIR GAN Y LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL LOTTERY FUNDED

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

## Am fwy o wybodaeth:

www.welshwomensaid.org.uk
info@welshwomensaid.org.uk

Cyhoeddwyd gan
Cymorth i Ferched Cymru 2019

© Cymorth i Ferched Cymru 2020

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid